



Disgwyliadau

Meini prawf ar gyfer asesu'r driniaeth a'r amodau ar gyfer dynion yn y carchar

Fersiwn 6, 2023

Cynnwys

Cyflwyniad gan Charlie Taylor, Prif Arolygydd Carchardai EF

Adran 1: Arweinyddiaeth

Adran 2: Diogelwch

- Dyddiau cynnar dan glo
- Hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol
 - Annog ymddygiad cadarnhaol
 - Dyfarniadau
 - Defnydd o rym
 - Gwahanu
- Diogelwch
- Diogelu
 - Atal hunanladdiad a hunan-niwed
 - Amddiffyn oedolion mewn perygl

Adran 3: Parch

- Perthynas staff-carcharor
- Bywyd bob dydd
 - Amodau byw
 - Gwasanaethau preswyl
 - Ymgynghori â charcharorion, ceisiadau a gwneud iawn
- Triniaeth deg a chynhwysiant
- Ffydd a chrefydd
- Iechyd, lles a gofal cymdeithasol
 - Strategaeth, llywodraethu clinigol a phartneriaethau
 - Hybu iechyd a lles
 - Gofal sylfaenol a gwasanaethau cleifion mewnol
 - Gofal cymdeithasol
 - Iechyd meddwl
 - Cefnogaeth a thriniaeth i garcharorion sy'n gaeth a'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau
 - Optimeiddio meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol
 - Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg

Adran 4: Gweithgaredd pwrpasol

- Amser allan o'r gell
- Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith (Ofsted)
 - Ansawdd addysg
 - Ymddygiad ac agweddau
 - Datblygiad personol
 - Arwain a rheoli gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith
- Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith (Estyn)
 - Safonau
 - Lles ac agweddau at ddysgu
 - Profiadau addysgu a dysgu
 - Gofal, cymorth ac arweiniad
 - Arweinyddiaeth a rheolaeth

Adran 5: Paratoi ar gyfer rhyddhau

- Plant a theuluoedd a chyswllt â'r byd y tu allan
- Lleihau aildroseddu
- Diogelu'r cyhoedd
- Ymyriadau a chefnogaeth
- Dychwelyd i'r gymuned

Cyflwyniad

Croeso i chweched rhifyn *Disgwyliadau*, y meini prawf y mae Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn eu defnyddio i arolygu carchardai sy'n dal dynion mewn oed. Nod y rhifyn hwn yw diweddar *Disgwyliadau* fel y gallwn barhau i gyflawni ein cyfrifoldeb i ddarparu asesiadau annibynnol a gwrthrychol o ganlyniadau i garcharorion. Mae'r ffocws hwn yn unol â chyfrifoldebau'r DU fel llofnodwr y Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith.

Mae ein *Disgwyliadau* wedi'u cynllunio i hyrwyddo triniaeth ac amodau yn y ddalfa sydd o leiaf yn bodloni safonau hawliau dynol rhyngwladol cydnabyddedig. Yn benodol, maent yn ceisio sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau a osodir ar garcharorion yn gymesur, yn gyfreithlon, yn atebol, yn angenrheidiol ac yn anwahaniaethol.

Rydym wedi cadw pedwar prawf carchar iach a'n meini prawf ar gyfer barnu effeithiolrwydd arweinyddiaeth. Yn y *Disgwyliadau* hyn, mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb arwain neu reoli yn y system carchardai. Byddwn yn parhau i gyfeirio ein naratif at y lefel o arweinyddiaeth sydd â'r gallu mwyaf i ddylanwadu ar ganlyniad penodol.

Rydym wedi cyhoeddi'r *Disgwyliadau* hyn ar-lein yn unig a byddwn yn dechrau eu defnyddio yn ein harolygiadau o fis Hydref 2023.

Rwy'n mawr obeithio y bydd y *Disgwyliadau* newydd yn cefnogi sefydliadau yn eu hymdrechion i wella canlyniadau i garcharorion.

Charlie Taylor
Prif Arolygydd Carchardai EF
Medi 2023

Adran 1: Arweinyddiaeth

Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad, anogaeth ac adnoddau i alluogi canlyniadau da i garcharorion.

Disgwyliadau

1. Cyfeiriad: Mae arweinwyr yn gweithio ar y cyd â staff, rhanddeiliaid a charcharorion i osod a chyfathrebu blaenoriaethau strategol a fydd yn gwella canlyniadau i garcharorion.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae arweinwyr yn meddu hunanasesiad cywir a chryno o gryfderau a gwendidau'r carchar a lle mae angen gwella canlyniadau. Caiff hyn ei gyfleu'n dda i'r staff.
- Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o brofiadau carcharorion a staff yn y carchar.
- Mae arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth gyffredin ac uchelgeisiol ar gyfer y carchar.
- Mae cynlluniau realistig, uchelgeisiol ar waith i wella canlyniadau i garcharorion.
- Mae'r staff yn deall ac yn rhannu nodau a blaenoriaethau'r carchar.
- Mae arweinwyr yn datblygu perthnasoedd gwaith llwyddiannus gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i gyflawni nodau'r carchar.

2. Ymgysylltu: Mae arweinwyr yn creu diwylliant lle mae staff a rhanddeiliaid eraill yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella canlyniadau i garcharorion.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae arweinwyr ar bob lefel yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt.
- Mae arweinwyr yn cymryd amser i wrando ar staff a charcharorion ac yn mynd ar drywydd materion a godwyd.
- Defnyddir cyfathrebu effeithiol i hybu dealltwriaeth o flaenoriaethau cyfredol, rhannu gwybodaeth, cydweithio a gweithio amlddisgyblaethol.
- Mae arweinwyr yn gosod, modelu a gorfodi safonau ymddygiad staff a gofal carcharorion sy'n cefnogi adsefydlu.
- Mae arweinwyr yn hyrwyddo lles staff yn weithredol.
- Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cymell a'u cefnogi yn eu gwaith.
- Mae arweinwyr yn dangos ac yn annog arloesedd a chreadigrwydd i ddatrys problemau a chwrdd ag anghenion carcharorion.
- Mae arfer effeithiol yn cael ei gydnabod a'i rannu.
- Mae diwylliant y sefydliad yn annog staff i fyfyrio ar eu camgymeriadau a dysgu oddi wrthynt.

3. Galluogi: Mae arweinwyr yn darparu'r adnoddau angenrheidiol i alluogi canlyniadau da i garcharorion.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae lefelau staffio yn ddigonol i gyflawni nodau'r carchar.
- Mae arweinwyr yn datblygu staff a rheolwyr i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau angenrheidiol i ddiwallu anghenion carcharorion.
- Gwna'r arweinwyr ddefnydd da o'r staff a'r adeiladau sydd ar gael iddynt.
- Mae arweinwyr yn nodi cyfyngiadau adnoddau ac yn ceisio eu datrys.
- Mae gan yr uwch dîm rheoli'r profiad a'r sgiliau angenrheidiol i wella canlyniadau i garcharorion.
- Mae rheolwyr llinell yn cefnogi eu staff, yn herio lle bo angen ac yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol addas.
- Mae systemau TGCh yn cefnogi arferion gwaith effeithiol.

4. Gwelliant parhaus: Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau sy'n cefnogi canlyniadau da i garcharorion. Maent yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn yn agos.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae arweinwyr yn defnyddio data'n effeithiol i sicrhau tegwch, monitro gwelliant ac, os oes angen, cymryd camau adferol i fynd i'r afael â risgiau sy'n dod i'r amlwg.
- Defnyddir adborth gan garcharorion, staff a rhanddeiliaid eraill i gynhyrchu syniadau, creu cynlluniau a mesur cynnydd.
- Gwneir penderfyniadau a chaiff cynlluniau eu diwygio mewn ymateb i wybodaeth newydd.
- Mae arweinwyr yn croesawu ac yn annog craffu allanol.
- Defnyddir argymhellion arolygu, canfyddiadau archwiliadau, adroddiadau digwyddiadau difrifol a syniadau arfer gorau i ysgogi gwelliant.
- Mae arweinwyr yn defnyddio prosesau sicrhau ansawdd i ysgogi gwelliant parhaus.
- Gwna'r arweinwyr ddefnydd effeithiol o amser rheoli. Mae pwrpas clir i gyfarfodydd goruchwyllo ac fe'u defnyddir i ysgogi gwelliant.
- Mae cydweithredu â thimau polisi a chydweithwyr mewn carchardai eraill neu sefydliadau partner yn cefnogi gwelliant.

Adran 2: Diogelwch

Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.

Cynnwys

- Dyddiau cynnar dan glo
- Hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol
 - Annog ymddygiad cadarnhaol
 - Dyfarniadau
 - Defnydd o rym
 - Gwahanu
- Diogelwch
- Diogelu
 - Atal hunanladdiad a hunan-niwed
 - Amddiffyn oedolion mewn perygl

Dyddiau cynnar dan glo

Mae carcharorion sy'n trosglwyddo i'r carchar ac oddi yno yn ddiogel ac yn cael eu trin yn weddus. Wrth gyrraedd, mae carcharorion yn ddiogel ac yn cael eu trin â pharch. Mae risgiau'n cael eu nodi ac yn cael sylw yn y dderbynfa. Mae carcharorion yn cael eu cefnogi ar eu noson gyntaf. Mae'r cyfnod sefydlu yn gynhwysfawr.

Disgwyliadau

5. Mae carcharorion yn teithio mewn amodau diogel, gweddus, yn cael eu trin â pharch a rhoddir sylw i'w hanghenion unigol.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Rhoddir rhybudd neu wybodaeth i garcharorion am y carchar y maent yn cael eu hanfon iddo.
- Mae cerbydau hebrwng yn lân ac yn diwallu anghenion amrywiol carcharorion.
- Nid yw carcharorion yn cael eu cadw i aros ar gerbydau ar ôl cyrraedd.
- Mae staff hebrwng yn ymwybodol o anghenion unigol y carcharorion yn eu gofal ac yn darparu briffio effeithiol i'r staff sy'n derbyn, gan gynnwys y cofnod hebrwng person..
- Rhoddir egwyliau cysur digonol a lluniaeth ysgafn i garcharorion wrth drosglwyddo.
- Mae carcharorion yn cyrraedd mewn da bryd i ganiatáu i weithdrefnau derbyn a noson gyntaf gael eu cynnal yn effeithiol.

6. Mae carcharorion yn ddiogel ac yn cael eu trin â pharch ar eu derbyniad a'u noson gyntaf yn y carchar. Nodir risgiau a chefnogir carcharorion yn unol â'u hanghenion unigol.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae anghenion carcharorion sydd newydd gyrraedd yn cael eu hasesu'n brydlon i sicrhau eu diogelwch, gan roi sylw arbennig i'r risg o hunanladdiad a hunan-niwed.
- Mae'r dderbynfa yn amgylchedd croesawgar a chefnogol.
- Mae cyfweliadau yn ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, yn nodi bregusrwydd a risg, ac yn cael eu cynnal yn gyfrinachol.
- Mae staff y dderbynfa yn darparu briffio effeithiol i staff yr adain.
- Mae carcharorion yn cael eu haduno â'u heiddo wrth gyrraedd ac yn cael eu symud yn gyflym i lety noson gyntaf dynodedig.
- Mae carcharorion yn gallu cael cymorth a chefnogaeth gan staff, teuluoedd a chefnogwyr cymheiriad.
- Gall carcharorion gael cawod ar eu noson gyntaf mewn carchar newydd.

- Cynigir galwad ffôn am ddim a darperir cefnogaeth ychwanegol i'r rhai nad oes ganddynt gefnogaeth allanol. Rhoddir gwybod i garcharorion am rif ffôn y Samariaid a'r cynllun Gwrandäwr.
- Mae carcharorion yn derbyn offer a chyflenwadau sylfaenol.
- Cynhelir gwiriadau lles rheolaidd ar newydd-ddyfodiaid.

7. Mae carcharorion yn cael eu sefydlu a'u cefnogi'n brydlon i ddeall bywyd yn y carchar.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae carcharorion yn cael gwybodaeth gynhwysfawr am y rheolau a'r drefn mewn fformat ac iaith y maent yn ei ddeall.
- Mae'r cyfnod sefydlu yn cynnwys sgwrs breifat gyda swyddog i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon.
- Mae anghenion adsefydlu uniongyrchol carcharorion (gan gynnwys teuluoedd, llety, cyflogaeth a dyled) yn cael eu nodi wrth gyrraedd a'u diwallu.
- Mae carcharorion yn cael eu diddanu'n ystyrlon yn ystod y cyfnod sefydlu ac yn cael eu dyrannu i addysg, sgiliau a gweithgaredd gwaith yn gyflym.
- Mae carcharorion sy'n destun galw'n ôl neu sy'n gymwys i gael mechnïaeth yn cael eu nodi'n brydlon a'u cefnogi i arfer eu hawliau cyfreithiol.
- Mae carcharorion sy'n wynebu dedfryd amhenodol yn cael eu nodi ar remand ac yn cael cymorth. Eglurir elfennau a goblygiadau dedfryd amhenodol iddynt hwy a, lle bo'n briodol, i'w teuluoedd.
- Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i drefnu eu hymweliad cyntaf ac yn cael y wybodaeth angenrheidiol am wasanaethau cymorth i'w galluogi i ailsefydlu a chynnal cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol

Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd diogel, trefnus ac ysgogol lle mae eu hymddygiad cadarnhaol yn cael ei hybu a'i wobrwyo. Ymdrinnir ag ymddygiad annerbyniol mewn modd gwrthrychol, teg, cymesur a chyson.

Disgwyliadau

Annog ymddygiad cadarnhaol

8. Anogir carcharorion i ymddwyn yn dda.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Nid yw strategaeth y carchar i gymell ymddygiad da wedi'i chyfyngu i'r fframwaith cymhellion ffurfiol, cynlluniau lleihau trais a'r broses ddyfarnu.
- Anogir ymddygiad da trwy gyflwyno trefn ddiogel, gweddus a phwrpasol.
- Mae gwobrau ar gael i garcharorion sy'n ymddwyn yn dda, sy'n ystyrlon ac yn cael eu cymhwyso'n gyson.
- Mae cyfleoedd ar gael i garcharorion a disgrifiad clir o sut i symud ymlaen yn cael ei gyfathrebu drwy'r carchar.

- Mae egwyddorion cymuned a dinasyddiaeth yn cael eu hyrwyddo, ac mae carcharorion yn cymryd rhan weithredol mewn amrywiaeth o waith trefnus ac atebol gan gymheiriaid.
- Mae staff yn deall eu rôl wrth gefnogi carcharorion i newid eu hymddygiad. Maent yn cynnig cyngor, cefnogaeth a chanmoliaeth iddynt, ac yn eu hannog i ymddwyn yn dda.
- Mae ymddygiad carcharorion yn cael ei adolygu'n aml ac yn deg, gan ystyried anghenion unigol, ac mae carcharorion yn gallu dangos cynnydd.
- Ymgynghorir â charcharorion yn aml ac ymatebol ynghylch yr hyn sy'n gweithio i gymell ymddygiad da.

9. Mae dull carchar cyfan clir a chydgyssylltiedig yn sicrhau bod carcharorion yn teimlo'n ddiogel ac yn ddiogel rhag erledigaeth, trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol arall.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae strategaeth amlddisgyblaethol effeithiol i leihau trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae staff yn hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol, yn nodi ac yn herio ymddygiad problematig ac yn modelu ymddygiad rhag-gymdeithasol.
- Mae staff carchardai yn adnabod arwyddion gwrthdaro ac yn hyderus i ymyrryd i atal anghydfodau rhag gwaethygu'n drais.
- Defnyddir cyfryngu a chyfiawnder adferol yn briodol i helpu i ddatrys anghydfodau.
- Ymchwilir i drais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn brydlon ac yn drylwyr a chymerir camau gweithredu lle bo angen.
- Mae data ar anhrefn a thrais yn erbyn carcharorion a staff yn cael ei ddadansoddi'n rheolaidd a'i ddefnyddio i lywio strategaeth.
- Mae carcharorion sy'n arbennig o agored i niwed yn cael eu hamddiffyn (er enghraifft y rhai sydd wedi cael eu bwllo neu sy'n agored i niwed oherwydd eu trosedd).
- Mae staff yn nodi carcharorion sy'n hunanynysu ac yn darparu cymorth i hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol, lles a chyfranogiad yn y gyfundrefn.
- Mae'r rhai sy'n cyflawni trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael cymorth i newid eu hymddygiad.
- Anogir carcharorion i fod yn brysur yn ystyrlon.

Dyfarniadau

10. Mae carcharorion yn destun gweithdrefnau disgyblu sy'n deg ac yn gymesur, yn amserol ac yn dilyn y broses briodol. Mae carcharorion yn deall y cyhuaddiadau a'r gweithdrefnau y maent yn eu hwynebu.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Lle bynnag y bo modd, caiff ymddygiad gwrthgymdeithasol ei herio'n effeithiol heb ddefnyddio gweithdrefnau disgyblu ffurfiol, a ddefnyddir fel dewis olaf yn unig.

- Nid yw carcharorion sydd heb allu i ufuddhau i reol carchar o ganlyniad i salwch meddwl neu anabledd yn cael eu dyfarnu.
- Ni ddefnyddir cosbau answyddogol neu gyfunol.
- Cynhelir dyfarniadau mewn amgylchiadau nad ydynt yn fygythiol.
- Mae carcharorion yn cael cymorth i ddeall y broses ddyfarnu ac yn cael cynnig cyngor cyfreithiol fel mater o drefn.
- Mae'r llywodraethwr yn cynnal dyfarniadau yn rheolaidd ac fel mater o drefn yn sicrhau ansawdd cyfran o'r dyfarniadau a wneir gan reolwyr eraill.
- Caiff data dyfarnu ei fonitro a chaiff unrhyw batrymau sy'n dod i'r amlwg eu nodi a gweithredir arnynt.
- Cwblheir dyfarniadau cyn gynted â phosibl ar ôl y drosedd honedig.

Defnydd o rym

11. Dim ond pan mae popeth arall yn methu y defnyddir grym yn erbyn carcharorion a byth fel cosb. Pan gaiff ei ddefnyddio, mae grym yn gyfreithlon, yn angenrheidiol, yn gymesur, ac yn destun llywodraethu trwyadl.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae gan staff yr hyfforddiant diweddaraf mewn dulliau cymeradwy o ddefnyddio grym, sy'n pwysleisio'r defnydd arferol o dechnegau dad-ddwysáu.
- Defnyddir ataliadau fel y dewis olaf ac am yr amser byrraf posibl.
- Caiff defnydd cynlluniedig o rym ei awdurdodi'n briodol.
- Defnyddir batonau a chwistrell PAVA yn briodol mewn ymateb i risg o anaf difrifol neu fygythiad i fywyd ac mae pob defnydd yn amodol ar graffu gan uwch reolwyr.
- Mae'r holl staff sy'n ymwneud â defnyddio grym yn cael eu dadfrifio ac yn cwblhau adroddiadau priodol yn brydlon.
- Mae carcharorion yn cael eu dadfrifio ar lafar ar ôl digwyddiad ac yn cael esboniad pam y defnyddiwyd grym arnynt gyda golwg ar atal rhag digwydd eto.
- Mae gan garcharorion ag ymddygiad heriol o ganlyniad i anabledd corfforol, anabledd dysgu neu anhwylder personoliaeth gynlluniau gofal sy'n amlygu ffactorau risg ac yn nodi protocolau rheoli amgen sy'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen technegau ataliaeth.
- Mae penderfyniadau i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) i reoli carcharorion yn cael eu hadolygu bob dydd yn unigol gan uwch reolwr.
- Mae staff iechyd yn cydnabod risgiau sy'n gysylltiedig ag ataliaeth, yn mynychu pob sefyllfa defnydd o rym a gynllunnir, yn brifio staff yn briodol ac yn asesu llesiant carcharorion yn ystod ac ar ôl y digwyddiad, ac yn cychwyn yr holl driniaethau/ymyriadau gofynnol yn brydlon.
- Mae data defnydd grym yn cael ei fonitro a chaiff unrhyw batrymau sy'n dod i'r amlwg eu nodi a gweithredir arnynt.
- Cedwir dogfennau defnydd grym a chamera fideo cysylltiedig a wisgir ar y corff, teledu cylch cyfyng neu ffilm fideo yn briodol. Mae tystiolaeth yn esbonio'n glir y digwyddiadau sy'n arwain at ddefnyddio grym ac mae uwch reolwyr yn craffu arni i sefydlu cyfiawnhad a nodi arfer da, cyfleoedd i wella a chamdriniaeth bosibl.

12. Nid yw carcharorion yn cael eu lleoli mewn llety heb ddodrefn, na'u gosod mewn ataliadau mecanyddol neu ddillad gwrth-rhwygo, ac eithrio pan fetho popeth arall a chydag awdurdodiad priodol.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Bydd llety heb ddodrefn, atalyddion mecanyddol neu ddillad gwrth-rhwygo wedi'u hawdurdodi'n briodol gan uwch reolwr a dim ond yn cael eu defnyddio am yr amser byrraf posibl.
- Bydd defnydd o unrhyw gell y mae dodrefn, dillad gwely neu lanweithdra arferol wedi'u tynnu ohoni neu lle mae person yn cael ei gadw mewn dillad gwrth-rhwygo yn cael ei awdurdodi a'i gofnodi fel defnydd o lety heb ddodrefn.
- Nid yw carcharorion yn cael eu noeth-chwilio neu eu cwrcwd-chwilio nac yn cael eu hamddifadu o'u dillad arferol mewn llety arbennig neu heb ddodrefn oni bai bod digon o wybodaeth benodol ac awdurdodiad priodol.
- Nid yw carcharorion â salwch meddwl difrifol a carcharorion sydd mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niwed yn cael eu cadw mewn llety arbennig neu heb ddodrefn, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol sydd wedi'u dogfennu'n glir ar awdurdod y llywodraethwr ac mewn ymgynghoriad â'r tîm iechyd meddwl.
- Mae carcharorion mewn llety heb ddodrefn yn cael eu monitro'n aml ac yn afreolaidd.
- Mae staff yn annog carcharorion i ddychwelyd i gell normal cyn gynted â phosibl.

Gwahanu

13. Dim ond gydag awdurdod priodol ac am yr amser byrraf posibl y caiff carcharorion eu gwahanu.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Nid yw carcharorion yn cael eu gwahanu oni bai ei fod yn ddewis olaf, am gyfnod mor fyr â phosibl ac yn amodol ar awdurdodiad priodol.
- Nid yw carcharorion â salwch meddwl difrifol a carcharorion sydd mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niwed yn cael eu gwahanu, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol sydd wedi'u dogfennu'n glir ar awdurdod y llywodraethwr.
- Mae carcharorion yn cael gwybod am y rhesymau dros eu gwahanu mewn fformat ac iaith y maent yn ei ddeall.
- Mae trosglwyddiadau carcharorion rhwng unedau gwahanu yn eithriadol, yn cael eu monitro'n ofalus i atal gwahanu hirfaith ac wedi'u hawdurdodi'n briodol.
- Mae grŵp staff amlddisgyblaethol yn monitro carcharorion a gedwir mewn unedau cadw ar wahân i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu cadw yno fel y dewis olaf ac am yr amser byrraf posibl.

14. Cedwir carcharorion yn ddiogel tra'u bod ar wahân ac mae anghenion unigol yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw priodol.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae ffocws clir ar ddiwallu anghenion unigol a darparu gofal a chymorth i garcharorion ar wahân.
- Mae staff iechyd yn asesu'r holl newydd-ddyfodiaid yn yr uned wahanu yn brydlon ac yn cyfrannu at gynlluniau gofal.
- Mae carcharorion sydd wedi'u gwahanu yn cael cymorth iechyd meddwl pendant ac adolygiad rheolaidd.
- Mae carcharorion yn cael sgysiau ystyrllon gydag amrywiaeth o staff bob dydd, gan gynnwys y cyfle i siarad yn gyfrinachol ag uwch reolwr, gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a chaplan.
- Mae staff yn wyliadwrus wrth ganfod arwyddion o ddirywiad mewn iechyd meddwl, yn lliniaru'r arwahanrwydd cymdeithasol sy'n gynhenid mewn gwahanu ac yn mynd ati i chwilio am leoliadau eraill.
- Mae adolygiadau yn amlddisgyblaethol ac mae carcharorion yn gallu eu mynychu.
- Mae'r staff wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n briodol, ac yn derbyn goruchwyliaeth arbenigol gan hwylusydd hyfforddedig.
- Gwneir ymdrechion i ddeall a mynd i'r afael â'r ymddygiad sy'n arwain at wahanu.
- Penderfynir ar nifer y staff sydd eu hangen i ddatgloi carcharorion unigol wrth wahanu ar sail asesiad risg dyddiol, sy'n cael ei awdurdodi a'i gofnodi'n briodol.

15. Mae gan garcharorion ar wahân fynediad dyddiol i ffôn a chawod, ac fe'u hanogir i gael mynediad at ystod deg o weithgareddau pwrpasol.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae'r drefn wedi'i theilwra i anghenion unigol, mae carcharorion yn gwybod pa drefn i'w ddisgwyl ac yn cael cyfle i ddefnyddio'r ffôn bob dydd.
- Fel isafswm mae carcharorion yn cael awr o ymarfer corff y tu allan bob dydd.
- Mae gan garcharorion sydd wedi'u lleoli yn yr uned wahanu am fwy na 72 awr gynllun gofal a chânt eu hannog a'u cefnogi i gysylltu ag eraill ac i ddychwelyd i leoliad arferol.
- Mae carcharorion yn cael gofal a chymorth ychwanegol ar ôl cyfnod o ynysu gyda golwg ar atal cyfnodau yn y dyfodol.
- Mae gan garcharorion weithgareddau priodol i'w meddiannu a'u hysgogi yn eu celloedd.
- Yn amodol ar asesiad risg, gall carcharorion gael mynediad at yr un cyfleusterau a breintiau ag mewn mannau eraill yn y carchar, yn ogystal â gweithgareddau cyfundrefn a chefnogwyr cymheiriaid.
- Mae carcharorion yn cael mynediad i ymarfer corff allanol a gweithgareddau eraill gyda'i gilydd, yn amodol ar asesiad risg priodol.

Diogelwch

Cedwir diogelwch a threfn dda trwy roi sylw i faterion corfforol a gweithdrefnol, gan gynnwys gwybodaeth diogelwch effeithiol a pherthynas gadarnhaol rhwng staff a charcharorion. Mae carcharorion yn ddiogel rhag dod i gysylltiad â chamddefnyddio sylweddau ac mae mesurau lleihau cyflenwad cyffuriau effeithiol ar waith.

Disgwyliadau

16. Cedwir carcharorion mewn amgylchedd diogel lle mae diogelwch yn gymesur.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Nid oes unrhyw wendidau amlwg yn niogelwch ffisegol a gweithdrefnol y sefydliad, neu mae tystiolaeth bod gwendidau yn cael sylw.
- Mae diogelwch yn gymesur â risg ac nid yw'n cyfyngu'n ddiangen. Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn cyfundrefnau agored a gweithredol a ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda charcharorion a staff eraill.
- Mae'r staff yn darparu goruchwyliaeth dda o garcharorion wrth iddynt gymdeithasu a symud o gwmpas y carchar.
- Mae dianc neu ffoi yn cael ei atal, gan gynnwys tra bod carcharorion yn cael eu hebrwng.
- Dim ond pan fydd asesiad risg unigol yn cyfiawnhau hynny y defnyddir ataliadau.
- Mae ffurflenni cofnodi hebryngwyr person wedi'u llenwi yn darparu gwybodaeth a fydd yn caniatáu i anghenion corfforol ac emosiynol y carcharor gael eu diwallu yn ystod hebrwng.
- Mae asesiadau risg ar gyfer rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) yn gynhwysfawr.
- Ymchwilir i fethiannau rhyddhau dros dro.

17. Mae lles carcharorion yn cael ei ddiogelu gan gudd-wybodaeth effeithiol a mesurau chwilio cymesur.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae mesurau cudd-wybodaeth a diogelwch effeithiol ac ymatebol ar waith.
- Mae camau y gofynnwyd amdanynt o ganlyniad i gudd-wybodaeth, gan gynnwys chwilio a phrofion cyffuriau, yn digwydd yn brydlon.
- Mae penderfyniadau a wneir ar sail cudd-wybodaeth yn gymesur â'r risg a berir ac yn ystyried dibynadwyedd y dystiolaeth.
- Mae systemau diogelwch yn ddigonol i nodi bygythiadau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y rhai gan garcharorion ag ideolegau eithafol.
- Defnyddir technoleg, gan gynnwys sganwyr corff, yn effeithiol i leihau masnachu mewn eitemau anghyfreithlon ac i osgoi noeth-chwiliadau diangen.
- Nid yw carcharorion yn cael eu noeth-chwilio neu eu cwrcwd-chwilio oni bai bod digon o wybodaeth benodol ac awdurdodiad priodol.

- Mae carcharorion yn cael gwybod bod eu celloedd neu eiddo personol yn cael eu chwilio a bod celloedd/eiddo yn cael eu gadael yn yr un cyflwr ag y cafwyd hyd iddynt ynddo.
- Nid yw chwilio arferol yn ormodol.
- Mae chwiliadau'n drylwyr ac yn cael eu cofnodi'n systematig

18. Mae prosesau effeithiol ar waith i amddiffyn carcharorion, cydweithwyr ac ymwelwyr rhag camymddwyn neu ymddygiad anghyfreithlon gan staff.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae carcharorion a'u teuluoedd yn gwybod sut i wneud cwynion cyfrinachol am staff, ac yn hyderus bod y system yn gweithio'n effeithiol.
- Mae carcharorion a staff yn gwybod pwy yw'r rheolwr atal llygredd lleol.
- Darperir amddiffyniad ar unwaith rhag dial i garcharorion a staff sy'n adrodd am gamymddwyn neu gamdriniaeth gan staff.
- Mae awdurdod cymwys a phriodol annibynnol yn ymchwilio i adroddiadau o gamymddwyn a chamdriniaeth.
- Lle canfyddir arfer amhriodol neu gamdriniol, caiff staff eu dwyn i gyfrif.
- Mae staff yn gwybod am drefniadau 'chwythu'r chwiban' ac yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio.

19. Mae strategaeth lleihau cyflenwad cyffuriau effeithiol.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae dull strategol, carchar cyfan o leihau'r cyflenwad o gyffuriau ac alcohol yn adlewyrchu tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac yn cysylltu'n effeithiol â'r strategaeth lleihau'r galw am gamddefnyddio sylweddau.
- Lle nodir problemau, cymerir camau adferol yn brydlon a'u gwerthuso.
- Mae profion cyffuriau, gan gynnwys profi ar amheuaeth a phrofion gwirfoddol, yn digwydd mewn amgylchedd addas ac yn cael eu cynnal yn gyson yn unol â phrotocolau sy'n sicrhau dilysrwydd gweithdrefnau.
- Mae carcharorion sy'n profi'n bositif am sylweddau anghyfreithlon, sy'n gwrthod cael eu profi, neu sy'n ymwneud ag achosion a amheuir yn ymwneud â chyffuriau yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau camddefnyddio sylweddau.
- Mae'r meini prawf i wahardd neu gyfyngu fel arall ar ymwelwyr yn ymwneud â chamddefnyddio ymweliadau yn unig a chaiff cyfyngiadau unigol eu hadolygu'n rheolaidd. Mae penderfyniadau'n dangos bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i unrhyw effaith bosibl ar iechyd meddwl neu ffactorau risg eraill, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'r risg o hunan-niwed a hunanladdiad.

Diogelu

Mae'r carchar yn darparu amgylchedd diogel sy'n lleihau'r risg o hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad yn cael eu nodi ac yn cael gofal a chymorth priodol. Mae'r holl oedolion agored i niwed sy'n wynebu risg yn cael eu nodi, eu hamddiffyn rhag niwed ac esgeulustod ac yn derbyn gofal a chymorth effeithiol.

Disgwyliadau

Atal hunanladdiad a hunan-niwed

20. Mae'r carchar yn darparu amgylchedd diogel a sicr sy'n mynd ati i leihau'r risg o hunan-niweidio a hunanladdiad.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae strategaeth effeithiol ac atebol ar gyfer atal hunanladdiad a hunan-niwed.
- Mae staff yn glir ynghylch eu cyfrifoldeb i gadw bywyd, pryd i fynd i mewn i gell dan glo a beth i'w wneud mewn argyfwng.
- Mae staff wedi'u hyfforddi mewn prosesau atal hunanladdiad ac yn gwybod sut i gefnogi carcharorion sy'n hunan-niweidio.
- Mae staff wedi'u hyfforddi i nodi a chefnogi carcharorion a allai fod â phroblemau iechyd meddwl, neu sydd wedi'u heffeithio gan drawma.
- Mae teulu a ffrindiau carcharorion yn gwybod sut i godi pryder am y risg o hunan-niwed neu hunanladdiad, gallant ofyn am gychwyn prosesau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT), a chânt eu hysbysu'n briodol.
- Mae offer cymorth cyntaf priodol ar gael yn rhwydd ac mae digon o swyddogion carchar wedi'u hyfforddi i'w ddefnyddio.
- Mae data hunan-niwed yn cael ei fonitro a chaiff unrhyw batrymau sy'n dod i'r amlwg eu nodi a gweithredu arnynt.
- Mae ymchwiliadau i ddigwyddiadau fu bron â digwydd difrifol yn drylwyr ac yn briodol annibynnol ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer gwella yr eir ar eu trywydd yn drylwyr.
- Mae staff yn ymateb yn gyflym ac yn gynhwysfawr i ymchwiliadau marwolaeth yn y ddalfa yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (PPO).
- Mae argymhellion y PPO a Lllys y Crwner yn cael eu blaenoriaethu, yn cael eu gweithredu arnynt ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol wedi'u dogfennu'n glir y caiff carcharorion sydd mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niwed eu cadw mewn llety heb ddodrefn neu ddillad gwrth-rhwygo, ar awdurdod y llywodraethwr ac mewn ymgynghoriad â'r tîm iechyd meddwl.
- Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol wedi'u dogfennu y caiff eiddo personol ei symud, yn dilyn adolygiad amlddisgyblaethol.

21. Mae carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad yn derbyn gofal unigol gan dîm amlddisgyblaethol ac yn cael mynediad dirwysr at help, gan gynnwys gan eu teuluoedd.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae staff yn defnyddio cynlluniau gofal a chymorth amlddisgyblaethol, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â'r carcharor, i nodi risgiau ac anghenion a rhoi strategaethau ar waith ar gyfer lleihau risg.
- Neilltuir rheolwyr achos cyson ar gyfer yr holl garcharorion sydd mewn perygl ac maent yn gyfrifol am oruchwyllo cynlluniau gofal rhwng adolygiadau.
- Rheolir carcharorion ag ymddygiad hunan-niweidio/hunanladdol cymhleth gan ddefnyddio adolygiadau achos amlddisgyblaethol uwch.
- Mae staff yn ymgysylltu mewn ffordd gefnogol ac adeiladol gyda charcharorion mewn argyfwng.
- Mae gweithwyr cymheiriaid carcharorion sydd wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n addas yn darparu cymorth gwranddo i garcharorion mewn argyfwng 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.
- Mae ystafelloedd gofal priodol ar gael i garcharorion mewn argyfwng.
- Mae goruchwyliaeth gyson yn anaml. Pan fo angen, mae staff yn creu amgylchedd cadarnhaol sy'n annog ac yn hwyluso mynediad i drefn bwrpasol.
- Gall carcharorion gael mynediad at ystod o wasanaethau cymorth, gan gynnwys addysg, sgiliau a gweithgaredd gwaith, ac mae staff yn annog carcharorion i gynnwys eu teulu neu ffrindiau yn eu gofal.
- Mae gwybodaeth am garcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad yn cael ei chyfleu i'r swyddog goruchwyllo yn y gymuned, pan fydd rhyddhau ar fin digwydd.

Amddiffyn oedolion mewn perygl

22. Mae carcharorion, yn enwedig oedolion agored i niwed sy'n wynebu risg – fel y'i diffinnir yn Neddf Gofal 2014 – yn cael amgylchedd diogel sy'n eu hamddiffyn rhag niwed ac esgeulustod.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae strategaeth ddiogelu leol i amddiffyn oedolion mewn perygl, a rheolwr lleol enwebedig.
- Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg ac yn gwybod sut i adnabod arwyddion o niwed.
- Mae carcharorion yn cael eu hamddiffyn rhag ideolegau eithafol.
- Gall carcharorion gael mynediad at ystod o wasanaethau cymorth ac mae staff yn annog carcharorion i gynnwys eu teulu neu ffrindiau yn eu gofal.
- Lle mae niwed neu gamdriniaeth yn cael ei honni neu ei amau, cymerir camau prydlon i amddiffyn yr unigolyn ac i ymchwilio.
- Mae carcharorion sydd wedi bod yn ddioddefwyr masnachu mewn pobl a chamdriniaeth drefnedig arall yn gallu ac yn gwybod sut i gael cymorth arbenigol, gan gynnwys gan staff hyfforddedig.
- Mae carcharorion y mae eu carchariad yn debygol o effeithio'n niweidiol ar eu hiechyd yn cael eu diogelu (Rheolau Carchar 1999, Rheol 21 (1)).

- Ceir dealltwriaeth glir ynghylch pryd i gysylltu â'r bwrdd partneriaeth diogelu oedolion a'i asiantaethau partner am gyngor ac arweiniad.
- Pan fo angen, gall carcharorion gael mynediad at eiriolwyr a/neu oedolion priodol i'w helpu i ddeall a rhoi caniatâd gwybodus.
- Mae staff yn ymgysylltu â'r holl asiantaethau perthnasol i sicrhau bod carcharorion yn cael gofal a chymorth priodol.

23. Mae oedolion sy'n wynebu perygl yn cael eu lleoli'n briodol a'u cefnogi gan staff hyfforddedig sydd ag adnoddau i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae carcharorion sydd mewn perygl o niwed yn cael eu lleoli mewn amgylchedd lle gallant gael mynediad hawdd at y cymorth sydd ei angen arnynt a threfn bwrpasol.
- Nid yw carcharorion sydd mewn perygl o niwed yn cael eu cadw ar wahân oni bai bod uwch reolwr yn cyfiawnhau hyn yn ysgrifenedig, ar sail amgylchiadau eithriadol.
- Mae cynlluniau gofal unigol yn cael eu datblygu i reoli anghenion asesedig carcharor.
- Neilltuir rheolwyr achos cyson ar gyfer yr holl garcharorion sydd mewn perygl ac maent yn gyfrifol am oruchwylio cynlluniau gofal rhwng adolygiadau.
- Defnyddir dulliau cosbol o reoli ymddygiad ar gyfer carcharorion ag anghenion cymhleth dim ond os yw hyn yn rhan o gynllun gofal neu gymorth unigol ac yn ogystal â dulliau eraill sydd wedi'u cynllunio i wella ymddygiad.

Adran 3: Parch

Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch tuag at eu hurddas dynol.

Cynnwys

- Perthynas staff-carcharor
- Bywyd bob dydd
 - Amodau byw
 - Gwasanaethau preswyl
 - Ymgynghori â charcharorion, ceisiadau a gwneud iawn
- Triniaeth deg a chynhwysiant
- Ffydd a chrefydd
- Iechyd, lles a gofal cymdeithasol
 - Strategaeth, llywodraethu clinigol a phartneriaethau
 - Hybu iechyd a lles
 - Gofal sylfaenol a gwasanaethau cleifion mewnol
 - Gofal cymdeithasol
 - Iechyd meddwl
 - Cefnogaeth a thriniaeth i garcharorion sy'n gaeth a'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau
 - Optimeiddio meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol
 - Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg

Perthynas staff-carcharor

Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch gan staff drwy gydol eu hamser yn y ddalfa, ac yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau eu hunain.

Disgwyliadau

24. Mae carcharorion yn cael eu trin â dynoliaeth a pharch at eu hurddas dynol. Mae'r berthynas rhwng carcharorion a staff yn gadarnhaol ac yn gwrtais.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae staff yn ymgysylltu'n rhagweithiol â charcharorion ac yn ceisio eu hadnabod fel unigolion.
- Mae staff a charcharorion yn gwrtais i'w gilydd.
- Mae uwch reolwyr yn arwain trwy esiampl ac yn ymgysylltu'n rheolaidd â charcharorion.
- Pan fydd angen i staff gyfleu newyddion sensitif neu ddigroeso i garcharorion, gwneir hyn yn breifat a chyda thosturi.
- Mae staff yn trin celloedd ac eiddo carcharorion â pharch.
- Mae staff a charcharorion yn cyfarch ei gilydd gan ddefnyddio eu henw neu deitl dewisol a byth yn defnyddio llysenwau sarhaus neu dermau difriol neu amhersonol.
- Mae staff yn deall effaith profiadau, fel trawma, cam-drin a salwch meddwl, ar ymddygiad.
- Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i reoli gofynion emosiynol eu gwaith.
- Pan fydd rheolau'n cael eu torri, mae staff yn cymryd amser i esbonio sut a pham i'r carcharor dan sylw.

25. Mae carcharorion yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am eu hadsefydlu ac i gyfrannu'n gadarnhaol at gymuned y carchar.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae carcharorion yn cymryd cyfrifoldeb am ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- Anogir carcharorion i fynychu gweithgareddau yn rheolaidd ac yn brydlon.
- Mae staff yn cefnogi ac yn ysgogi carcharorion i ymgysylltu'n gadarnhaol â gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i leihau eu risg o aildroseddu a'u helpu i baratoi ar gyfer eu rhyddhau.
- Mae cynllun cymorth cymheiriaid trefnus a strwythuredig, sy'n annog 'dinasyddiaeth weithredol' yn llwyddiannus o fewn cymuned y carchar.
- Mae rolau gweithwyr cymheiriaid wedi'u diffinio'n glir.
- Mae gweithwyr cymheiriaid yn derbyn hyfforddiant, cefnogaeth a goruchwyliaeth briodol.
- Mae'r grŵp gweithwyr cymheiriaid yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori.

26. Mae gan garcharorion aelod penodol o staff sy'n eu cefnogi'n emosiynol ac yn ymarferol ac yn eu helpu i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae gan garcharorion aelod penodol o staff sy'n eu hadnabod yn dda.
- Mae'r staff yn gwybod am amgylchiadau personol carcharorion ac yn annog cyswllt â'r byd y tu allan, yn enwedig gydag aelodau agos o'r teulu a dibynyddion.
- Mae staff yn cefnogi carcharorion i gyflawni amcanion eu cynllun dedfryd.
- Mae staff yn annog carcharorion i fyfyrio ar ganlyniadau eu hymddygiad a defnyddio cyfryngu i ddatrys gwrthdaro.
- Mae staff yn ofalgar ac yn dosturiol ac yn cefnogi carcharorion i wneud dewisiadau da a rheoli eu hemosiynau.
- Ymgynghorir â staff ar faterion sy'n ymwneud â'r carcharorion y maent yn gweithio gyda nhw ac maent yn darparu cefnogaeth gyda materion adsefydlu ac ailsefydlu carcharorion.
- Mae staff yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn y carchar ac yn eu defnyddio i helpu carcharorion.
- Mae staff yn cadw cofnod cronolegol cywir o gyswllt â charcharorion, ac yn ei ddefnyddio i lywio rhyngweithiadau yn unol â hynny.
- Lle bo'n briodol, mae staff yn defnyddio cynlluniau gofal i gydlynu gofal ar gyfer y carcharorion mwyaf agored i niwed.

Bywyd bob dydd

Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd glân a gweddus ac yn ymwybodol o reolau ac arferion y carchar. Darperir gwasanaethau sylfaenol hanfodol iddynt, ymgynghorir â hwy yn rheolaidd a gallant wneud cais am wasanaethau a chymorth ychwanegol. Mae'r prosesau cwyno a gwneud iawn yn effeithlon ac yn deg.

Disgwyliadau

Amodau byw

27. Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd glân a gweddus sydd mewn cyflwr da ac yn addas at y diben.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae celloedd a mannau cymunedol yn lân, heb graffiti/darluniau sarhaus, wedi'u goleuo'n dda (gan gynnwys digon o olau naturiol) ac wedi'u haddurno'n dda.
- Mae'r llety yn bodloni safonau gofynnol y cytunwyd arnynt (maint, gwres, awyru) ac yn darparu digon o le ar gyfer nifer y carcharorion a gedwir yn y gell.
- Fel isafswm, mae gan garcharorion eu gwely, cadair, bwrdd a chwpwrdd clodwy eu hunain a digon o le i storio eiddo personol, gan gynnwys meddyginiaeth.

- Mae caeadau ar bob toiled yn y gell ac maent wedi'u sgrinio. Mewn celloedd a rennir, caiff cyfleusterau ymolchi eu sgrinio.
- Mae dŵr yfed, toiled a chyfleusterau ymolchi ar gael i garcharorion bob amser.
- Mae unedau preswyl mor dawel â phosibl yn y nos gyda golau priodol i alluogi gorffwys a chysgu.
- Mae'r mannau allanol yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da a glân.

28. Mae carcharorion wedi'u lleoli'n briodol ac yn ddiogel yn eu hunedau preswyl ac yn deall rheolau ac arferion y carchar, sy'n annog ymddygiad cyfrifol.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Dim ond ar ôl proses asesu risg addas y mae carcharorion yn rhannu celloedd.
- Nid yw'n ofynnol i garcharorion heb eu heuogfarnu rannu llety â charcharorion sydd wedi'u dedfrydu.
- Nid yw'n ofynnol i oedolion ifanc rannu celloedd ag oedolion.
- Mae staff yn ymateb i glychau galw cell brys o fewn pum munud.
- Mae gan garcharorion allwedd cwrteisi i'w cell.
- Mae paneli arsylwi yn nrysau'r gell bob amser yn rhydd o unrhyw rwystr.
- Mae carcharorion yn gwybod y rheolau a'r arferion lleol, sy'n cael eu gweithredu'n agored, yn deg ac yn gyson, heb unrhyw wahaniaethu.
- Pan fydd penderfyniadau'n cael eu cyfleu i garcharorion, mae trefniadau apêl yn cael eu hesbonio a'u gwneud ar gael.

29. Anogir carcharorion i gadw eu hunain, eu celloedd a mannau cymunedol yn lân.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Gall carcharorion gael cawod neu ymolchi yn breifat bob dydd.
- Mae carcharorion yn cael eitemau hylendid sylfaenol at eu defnydd personol.
- Darperir dillad gwely glân i bob carcharor newydd wrth gyrraedd a gellir eu hailosod neu eu golchi'n wythnosol.
- Gosodir matresi newydd pan fo angen.
- Lle mae trefniadau glanweithdra nos yn bodoli, mae mynediad yn brydlon.
- Mae digon o ddeunyddiau glanhau ar gael i garcharorion i gadw eu celloedd a'u mannau cymunedol yn lân.
- Mae strategaeth glir sy'n dangos sut mae safonau yn y celloedd yn cael eu sicrhau gan arweinwyr ac sy'n dangos bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon.

30. Mae gan garcharorion ddigon o ddillad glân o'r math, maint, ansawdd a dyluniad cywir i ddiwallu anghenion unigol.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae dillad carcharor yn urddasol, yn ffitio ac mewn cyflwr da.

- Mae carcharorion yn cael digon o ddillad isaf glân a sanau i allu eu newid bob dydd.
- Rhoddir digon o ddillad ac esgidiau cynnes sy'n gwrthsefyll y tywydd i garcharorion fynd allan ym mhob tywydd.
- Mae carcharorion yn cael cyfleoedd i wisgo eu dillad eu hunain.
- Mae gan garcharorion fynediad wythnosol o leiaf i gyfleusterau golchi dillad i olchi a smwddio eu dillad.

31. Mae eiddo carcharorion a gedwir mewn storfa yn ddiogel, a gall carcharorion gael mynediad iddo ar gais.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Gall carcharorion dderbyn parseli yn amodol ar ystyriaethau diogelwch a rheolaeth gyfeintiol.
- Mae faint o eiddo sy'n cael ei feddiannu a'i storio yn ystyried anghenion unigol.
- Mae'r rhestr o eiddo y caniateir i garcharorion ei gadw yn ddigonol i gwrdd ag anghenion y boblogaeth.
- Mae eiddo gwerthfawr carcharorion yn cael ei nodi fel mater o drefn diogelwch cyn iddo gael ei ddosbarthu.
- Nid yw eitemau meddygol, gan gynnwys dannedd gosod, sbectol, a chymhorthion clyw, yn cael eu tynnu oddi ar garcharorion heb ofalon diogelwch â thystiolaeth dda.
- Mae'r holl eiddo'n cael ei ddychwelyd i garcharorion pan gânt eu rhyddhau neu eu trosglwyddo.
- Mae carcharorion yn cael eu digolledu'n deg am ddillad ac eiddo sy'n cael eu colli neu eu difrodi yn y storfa.

Gwasanaethau preswyl

32. Mae gan garcharorion ddeiet blasus, amrywiol, iach a chytbwys sy'n bodloni eu hanghenion unigol.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae amserau bwyd yn cyfateb i'r rhai yn y gymuned gyffredinol.
- Gall carcharorion fwyta allan o'u celloedd, gydag eraill.
- Gweinir brecwast pan fwriedir ei fwyta.
- Mae gan garcharorion ddewis o brydau bwyd a gallant wneud dewisiadau ffordd o fyw am eu deiet.
- Mae staff arlwyo yn darparu prydau sy'n bodloni gofynion deiet meddygol.
- Cytunir ar fwydlenni yn dilyn cyngor gan ddeietegwyr a maethegwyr ac maent yn bodloni anghenion y boblogaeth.
- Nid yw carcharorion sy'n dychwelyd o'r llys neu'n cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) yn colli allan ar eu prif bryd.
- Gall carcharorion wneud diod boeth ar ôl cloi gyda'r nos.
- Ymgynghorir â charcharorion am y fwydlen ac mae eu hadborth am fwyd yn cael ei ystyried yn rheolaidd.

- Gall carcharorion (yn enwedig carcharorion tymor hir) ddarparu ar gyfer eu hunain.

33. Gall carcharorion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n ymwneud â bwyd sy'n hybu lles, perthnasoedd a datblygu sgiliau.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae arweinwyr yn hyrwyddo'r syniad o garcharorion yn coginio ac yn bwyta gyda'i gilydd a chyda staff.
- Mae arweinwyr yn ceisio cyngor a chymorth gan sefydliadau cymunedol arbenigol i gyflwyno gweithgaredd effeithiol sy'n ymwneud â bwyd.
- Mae gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd yn meithrin sgiliau coginio a chymdeithasol, yn cefnogi hunanfyneiant diwylliannol ac yn darparu cyfleoedd i wella perthnasoedd.
- Mae'r staff yn deall swyddogaethau lles seicolegol a chymdeithasol bwyd.
- Mae cyfleusterau arlwygo a bwyta â chyfarpar priodol yn galluogi carcharorion i goginio a bwyta gyda'i gilydd.

34. Mae bwyd a phrydau carcharorion yn cael eu storio, eu paratoi a'u gweini yn unol â gofynion crefyddol, diwylliannol a deiet arbennig eraill ac yn cydymffurfio â rheoliadau hylendid..

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae rheolwyr yn sicrhau y cedwir at reoliadau hylendid bwyd a diogelwch perthnasol ym mhob man lle mae bwyd yn cael ei storio, ei baratoi neu ei weini.
- Mae staff arlwygo yn bodloni anghenion crefyddol, diwylliannol neu ddeietegol penodol eraill.
- Mae carcharorion a staff sy'n gweithio gyda bwyd wedi'u hyfforddi, yn gwisgo dillad priodol ac wedi cael prawf iechyd.
- Mae'r staff yn goruchwyllo'r broses o weini bwyd i atal ymyrryd ac i wneud yn siŵr bod rheolaeth briodol ar ddogneau.
- Gall carcharorion sy'n paratoi neu weini bwyd ennill cymwysterau perthnasol.

35. Mae carcharorion yn cael cyfle wythnosol i brynu amrywiaeth addas o nwyddau, gan gynnwys ystod eang o ddewisiadau iach, am brisiau rhesymol.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Gall carcharorion brynu eitemau o fewn 24 awr ar ôl cyrraedd.
- Mae carcharorion sy'n cyrraedd y dderbynfa heb arian preifat yn cael cynnig blaenswm i'w ddefnyddio ar gyfer pryniannau, gydag ad-daliad yn cael ei wneud er mwyn osgoi'r tebygolrwydd y byddant yn mynd yn ddyledus i garcharorion eraill.
- Mae prisiau'n cyfateb yn fras i'r rhai yn y gymuned.
- Mae'r rhestr o gynhyrchion yn cynnwys nifer sylweddol o opsiynau iachus.

- Mae'r rhestr o gynhyrchion sydd ar gael yn diwallu anghenion amrywiol y boblogaeth.
- Gall carcharorion osod archebion o leiaf unwaith yr wythnos.
- Gall carcharorion gael mynediad at gofnodion cywir a chyfredol o'u harian, yn rhad ac am ddim.
- Gall carcharorion brynu papurau newydd a chylchgronau a gosod archebion catalog.
- Gall carcharorion brynu ystod eang o ddeunyddiau hobi wedi'u cymeradwyo.

Ymgynghori â charcharorion, ceisiadau a gwneud iawn

36. Mae carcharorion yn chwarae rhan weithredol wrth ddylanwadu ar benderfyniadau am wasanaethau, arferion a chyfleusterau yn y carchar ac wrth reoli eu bywyd o ddydd i ddydd eu hunain.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Ymgynghorir yn rheolaidd â charcharorion am fywyd carchar a rhoddir cyfle iddynt gyflwyno unrhyw feysydd o gŵyn neu anfodlonrwydd yn uniongyrchol i reolwyr.
- Gall carcharorion godi materion neu bryderon i'w trafod.
- Gall carcharorion herio penderfyniadau'n briodol ac maent yn hyderus bod eu barn yn cael ei chymryd o ddifrif.
- Mae'r dewis o garcharorion i gymryd rhan mewn digwyddiadau ymgynghori mwy ffurfiol neu i gynrychioli'r grŵp ehangach o garcharorion yn deg ac yn dryloyw.
- Mae carcharorion yn cael gwybod am ganlyniad ymgynghoriad ac yn cael rhesymau cyfiawn dros unrhyw benderfyniad a wneir.
- Mae mecanweithiau adborth parhaus, er enghraifft llyfrau sylwadau bwyd, ar gael yn rhwydd, yn cael eu gwirio'n rheolaidd ac yn cael ymateb priodol.

37. Anogir staff a charcharorion i ddatrys ceisiadau yn anffurfiol; pan nad yw hyn yn bosibl mae carcharorion yn deall sut i wneud cais am y gwasanaethau sydd ar gael, ac yn gallu gwneud hynny'n hawdd.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Anogir staff a charcharorion i ddatrys ceisiadau yn anffurfiol, cyn gwneud cais ffurfiol, ysgrifenedig neu gŵyn.
- Mae carcharorion yn gwybod sut i wneud ceisiadau a gallant wneud hynny'n gyfrinachol.
- Mae staff yn helpu carcharorion i wneud ceisiadau, yn ôl y gofyn.
- Nid oes rhaid i garcharorion wneud ceisiadau mynych am wasanaethau y maent yn eu cyrchu neu'n eu derbyn yn rheolaidd.
- Mae carcharorion yn cael ymatebion amserol i'w ceisiadau sy'n deg, yn barchus, yn hawdd eu deall ac yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd.

38. Mae gan garcharorion hyder mewn gweithdrefnau cwyno, sy'n effeithiol, yn amserol ac yn cael eu deall yn dda.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae carcharorion yn gwybod sut i gwyno ac mae ganddynt fynediad i wybodaeth am weithdrefnau cwyno mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd.
- Mae gan garcharorion fynediad hawdd at ffurflenni cwyno a gallant eu cyflwyno'n gyfrinachol.
- Mae gwasanaethau cyfryngu ar gael.
- Mae ymatebion i gwynion yn hawdd i'w deall, yn gynhwysfawr, yn barchus, yn brydlon ac yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd.
- Lle bo angen, mae carcharorion yn cael cymorth i wneud eu cwyn.
- Mae proses sicrhau ansawdd effeithiol ar gyfer ymatebion i gwynion, yn ddelfrydol gyda dilysiad allanol.
- Ymgynghorir â charcharorion yn rheolaidd am y system gwynion fewnol i'w monitro a chynnal hyder ynddi.
- Mae staff carchardai yn ymateb yn gyflym ac yn gynhwysfawr i ymchwiliadau i gwynion yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (PPO) ac yn gweithredu argymhellion y PPO yn brydlon.

39. Mae carcharorion yn teimlo'n ddiogel rhag sgil-effeithiau wrth ddefnyddio gweithdrefnau cwyno a gallant apelio yn erbyn penderfyniadau yn hawdd.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Nid yw carcharorion yn cael eu hannog i dynnu cwynion yn ôl.
- Ymchwilir i gwynion am staff gan berson annibynnol priodol ar lefel uwch.
- Mae carcharorion ac ymwelwyr sy'n gwneud cwynion yn erbyn staff a/neu garcharorion eraill yn cael eu hamddiffyn rhag gwrthgyhuddiad posibl.
- Mae carcharorion yn gwybod sut i apelio yn erbyn dyfarniadau.
- Mae gan garcharorion fynediad at sefydliadau allanol cydnabyddedig sy'n cynnig cymorth i fynd ar drywydd cwyn.
- Gall carcharorion siarad yn rhwydd ag aelodau'r Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) yn gyfrinachol.
- Mae'r carcharorion yn gwybod sut i gysylltu â'r PPO yn gyfrinachol.
- Mae gwybodaeth am yr Ombwdsmon Cyfreithiol ar gael.
- Mae carcharorion yn cael cymorth i fynd ar drywydd cwynion y tu allan i'r carchar neu gyda chyrff allanol, os oes angen iddynt wneud hynny. Maent yn cael cymorth i gysylltu â chynghorwyr cyfreithiol neu wneud ceisiadau uniongyrchol i'r llysoedd.

40. **Bodlonir anghenion cyfreithiol carcharorion yn ddi-oed a gallant arfer eu hawliau cyfreithiol.**

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae carcharorion heb eu collfarnu yn cael cymorth i wneud cais am fechnïaeth ac i ddod o hyd i lety mechnïaeth.
- Mae carcharorion yn gwybod pa adnoddau sydd ar gael yn y carchar i helpu i ddiwallu eu hanghenion cyfreithiol ac yn cael eu cefnogi i ddod o hyd i gynrychiolydd cyfreithiol os oes angen.
- Gall carcharorion gyfathrebu â'u cynrychiolwyr cyfreithiol a gwleidyddol yn gyfrinachol dros y ffôn, e-bost a llythyr.
- Defnyddir cyswllt fideo ar gyfer achosion llys cymwys ac ar gyfer ymgynghoriadau cyfreithiol eraill.
- Lle bo angen, mae gan garcharorion fynediad at gyfrifiadur ac argraffydd i baratoi gohebiaeth a dogfennau cyfreithiol.
- Nid yw gohebiaeth sy'n gyfreithiol freintiedig yn cael ei hagor gan staff oni bai bod amgylchiadau eithriadol wedi'u dogfennu a bod y carcharor yn bresennol.
- Gall carcharorion gwrdd â'u cynrychiolwyr cyfreithiol wyneb yn wyneb, yn breifat, allan o wrandawriad staff, gan gynnwys at ddibenion parôl.
- Mae cyfleusterau ar gael i gynrychiolwyr cyfreithiol adolygu tystiolaeth TCC gyda charcharorion.
- Mae carcharorion sy'n gymwys i bleidleisio ar y gofrestr etholiadol, yn gallu derbyn deunydd ymgyrchu ac yn gallu arfer eu hawl i bleidleisio yn rhydd.

Triniaeth deg a chynhwysiant

Ceir ymagwedd glir at hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon a meithrin perthnasoedd da. Mae anghenion penodol carcharorion â nodweddion gwarchodedig, neu'r rhai a all fod mewn perygl o wahaniaethu neu driniaeth anghyfartal, yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw. Mae carcharorion yn gallu ymarfer eu crefydd. Mae'r gaplaniaeth yn chwarae rhan lawn ym mywyd y carchar ac yn cyfrannu at ofal, cymorth ac adsefydlu cyffredinol carcharorion.

Disgwyliadau

41. **Mae arweinwyr yn cymryd profiadau a safbwyntiau carcharorion â nodweddion gwarchodedig o ddifrif, yn cyfathrebu â nhw'n effeithiol, ac yn defnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth i ysgogi gwelliant.**

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae arweinwyr yn ymwybodol o brofiadau a theimladau'r rhai mewn grwpiau gwarchodedig ac yn ystyried ffactorau sy'n effeithio ar eu lles.
- Defnyddir adnoddau arbenigol i wella cyfathrebu gyda grwpiau gwarchodedig.
- Mae arweinwyr yn casglu, dadansoddi a chyfathrebu data ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn hyderus ar draws ystod o ddangosyddion bywyd carchar. Maent yn ei ddefnyddio i achosi newid, ac yn monitro, cynnal a rhannu cynnydd.

- Mae gan berson enwebedig o statws uwch priodol gyfrifoldeb cyffredinol am gydraddoldeb ac amrywiaeth.

42. Mae carcharorion yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu rhannu eu profiadau, gan gynnwys gydag arweinwyr carchardai. Mae gweithdrefnau yn eu lle a chymerir camau i nodi a mynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghyfartaledd.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae arweinwyr wedi rhoi prosesau a strwythurau ar waith i wella cyfathrebu, er enghraifft trwy fforymau wedi'u hwyluso'n gymwys, mentora o chwith, a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar fwyd neu'r celfyddydau.
- Mae arweinwyr wedi rhoi prosesau a strwythurau ar waith i wella tegwch, er enghraifft trwy fonitro cydraddoldeb, ffurflenni adrodd am ddigwyddiadau gwahaniaethu (DIRFs), addasiadau a chywiriadau.
- Mae carcharorion a staff yn gwybod beth sy'n dderbyniol o ran ymddygiad ac iaith.
- Mae gwahaniaethu posibl neu wirioneddol yn cael ei nodi'n effeithiol.
- Mae arweinwyr carchardai a staff yn ymateb i'r holl bryderon a nodir yn rhagweithiol, yn gynhwysfawr ac yn barchus.

43. Mae carcharorion yn rhyngweithio â staff sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i roi arferion cynhwysol a diwylliannol gymwys ar waith.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae arweinwyr yn ymdrechu i recriwtio a chadw staff sy'n cynrychioli cefndiroedd ac anghenion amrywiol poblogaeth y carchardai.
- Mae arweinwyr yn ceisio cyngor a chydweithio gyda sefydliadau a grwpiau arbenigol i helpu i hyrwyddo triniaeth deg a'u galluogi i weithio'n effeithiol gyda staff a charcharorion.
- Mae carcharorion a gedwir yng Nghymru yn gallu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- Anogir staff a charcharorion i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o safbwyntiau a phrofiadau ei gilydd.
- Mae diwylliant y carchar yn ei helpu i wella canlyniadau cydraddoldeb ac amrywiaeth i garcharorion a staff.

44. Mae triniaeth deg yn cael ei hyrwyddo, ei datblygu a'i hamddiffyn yn effeithiol yn y carchar.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Hyrwyddir ymwybyddiaeth o anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig gan ddigwyddiadau addysgol a dathlu.

- Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol i ddeall, cyfathrebu a thrafod materion yn ymwneud â hunaniaeth ethnig a hiliol gyda'u staff a charcharorion.
- Mae anghenion penodol carcharorion sy'n wladolion tramor yn cael eu diwallu, gan gynnwys deall a chymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd carchar.
- Mae carcharorion ag anableddau o bob math yn cael mynediad teg i bob agwedd ar fywyd carchar, a gallant gymryd rhan yn ddiogel ac yn adeiladol..
- Mae staff yn ymwybodol o anghenion carcharorion sydd â chyflyrau niwrowahanol ac anableddau dysgu, a gwneir addasiadau i'w diwallu.
- Beth bynnag fo'u hunaniaeth o ran rhywedd, mae pob carcharor yn derbyn triniaeth deg, gyfartal a pharchus.
- Gall carcharorion LHDT+ chwarae rhan lawn, agored a chyfartal ym mywyd y carchar.
- Mae llesiant ac aeddfedu oedolion ifanc (18-24 oed), gan gynnwys y rhai sydd wedi trosglwyddo o ystâd y plant neu sydd wedi bod yng ngofal awdurdod lleol, yn cael eu cefnogi trwy driniaeth deg sy'n briodol i'w hoedran.
- Mae gan garcharorion hŷn fynediad at drefn a chyfleusterau sy'n eu galluogi i wneud defnydd adeiladol o'u hamser yn y carchar.
- Mae carcharorion o bob ffydd a system gred yn cael eu trin yn gyfartal.
- Mae pob grŵp lleiafrifol arall, megis cyn-filwyr, yn cael eu cydnabod a'u hanghenion penodol yn cael eu diwallu, gan gynnwys unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen i sicrhau eu bod yn cael triniaeth gyfartal a chynhwysol.

Ffydd a chrefydd

Yn yr adran hon, mae crefydd yn cynnwys 'crefydd a chred' fel y'u deallir yng nghydestun Deddf Cydraddoldeb 2010 a chyfraith achosion cysylltiedig.

45. Galluogir carcharorion i ymarfer eu crefydd yn llawn ac yn ddiogel.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae carcharorion yn gwybod am y gwasanaethau caplaniaeth ac mae ganddynt fynediad hawdd at addoli ar y cyd a dosbarthiadau a grwpiau ffydd.
- Mae cyfansoddiad tîm y gaplaniaeth yn gymesur â phoblogaethau ffydd y carchar.
- Mae goruchwyliaeth staff o wasanaethau ffydd yn barchus ac yn gymesur.
- Mae carcharorion a staff yn adnabod aelodau'r gaplaniaeth yn dda.
- Mae ardaloedd ffydd yn hygyrch ac yn caniatáu myfyrdod, ystyriaeth a gweddïo.
- Nid yw defnyddio gwahanu yn atal mynediad hawdd carcharorion i addoliad corfforaethol a dosbarthiadau a grwpiau ffydd yn afresymol.
- Gwneir darpariaethau amgen neu ychwanegol pan waherddir carcharorion unigol o addoli ar y cyd.
- Gall carcharorion gael, cadw a defnyddio arteffactau sydd ag arwyddocâd crefyddol.
- Gall carcharorion fodloni gofynion ffordd o fyw crefyddol.

46. Mae gwahanol grefyddau yn cael eu cydnabod a'u parchu.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae'r staff yn ymwybodol o amrywiaeth crefyddol a'r ffordd y mae hyn yn rhyngweithio â hunaniaeth ddiwylliannol a hiliol.
- Mae chwiliadau staff, ymwelwyr, carcharorion a'u heiddo yn cael eu cynnal mewn modd crefyddol a diwylliannol sensitif.
- Gall carcharorion ddysgu am wahanol ffydd. Mae carcharorion yn rhydd i newid neu gefnu ar eu crefydd.
- Mae carcharorion yn gallu dathlu pob un o'r prif wyliau crefyddol.
- Mae'r gwaith o fonitro'r gwahanol grefyddau ym mhoblogaeth y carchardai yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd i siapio darpariaeth gwasanaeth.

47. Mae carcharorion yn cael eu cefnogi'n llawn gan y gaplaniaeth, sy'n cyfrannu at ofal, cymorth ac adsefydlu cyffredinol carcharorion.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae caplaniaid yn cyfarfod â'r holl garcharorion newydd o fewn 24 awr iddynt gyrraedd y carchar ac yn cael sgwrs ystyrlon a phreifat.
- Mae aelod o'r tîm caplaniaeth yn ymweld â charcharorion yn yr uned cleifion mewnol a'r rhai sy'n cael eu gwahanu bob dydd.
- Mae caplaniaid yn cymryd rhan ar unwaith pan fydd carcharor yn agos at farwolaeth neu wedi marw, i gefnogi'r carcharor sy'n marw, perthnasau, carcharorion eraill a staff.
- Gall caplaniaid roi cymorth i garcharorion sydd wedi profi profedigaeth neu golled.
- Mae caplaniaid yn cyfrannu at dimau amlddisgyblaethol ar draws y carchar, ac yn mynychu adolygiadau achos unigol lle bo'n briodol.
- Mae caplaniaid yn sefydlu ac yn cynnal cysylltiadau â chymunedau ffydd y tu allan i'r carchar.
- Mae caplaniaid yn cefnogi rôl ffydd wrth hyrwyddo ymatal rhag troseddu ac yn helpu carcharorion i ddiwallu eu hanghenion ffydd ar ôl eu rhyddhau.
- Mae gan dîm y gaplaniaeth rôl i nodi a herio ideolegau eithafol sy'n honni eu bod yn seiliedig ar gred crefyddol.
- Gall carcharorion heb ffydd gael cymorth gan dîm y gaplaniaeth ac ni chânt eu trin yn llai ffafriol na charcharorion ffydd.

Iechyd, lles a gofal cymdeithasol

Mae cleifion yn derbyn gofal gan wasanaethau sy'n asesu ac yn diwallu eu hanghenion iechyd, gofal cymdeithasol a defnyddio sylweddau ac sy'n hyrwyddo parhad gofal ar ôl eu rhyddhau. Mae safon y ddarpariaeth yn debyg i'r hyn y gallai cleifion ddisgwyl ei chael yn rhywle arall yn y gymuned.

Disgwyliadau

Strategaeth, llywodraethu clinigol a phartneriaethau

48. Mae cleifion yn derbyn gofal gan wasanaethau sy'n asesu'n gywir ac yn diwallu eu hanghenion iechyd, gofal cymdeithasol a chamdddefnyddio sylweddau ac sy'n hybu parhad iechyd a gofal cymdeithasol ar ôl eu rhyddhau.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae gwaith partneriaeth effeithiol rhwng y carchar, comisiynwyr a darparwyr yn sicrhau bod gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a defnyddio sylweddau yn bodloni anghenion asesedig poblogaeth y carchardai.
- Mae systemau arwain a llywodraethu effeithiol yn sicrhau canlyniadau da i gleifion.
- Mae darpariaeth iechyd, defnydd sylweddau a gofal cymdeithasol yn bodloni'r safonau rheoleiddio gofynnol.
- Mae ymgynghori effeithiol â charcharorion, archwiliadau a gwersi a ddysgwyd (er enghraifft o ddigwyddiadau anffafriol a chwynion) yn llywio'r gwaith o wella gwasanaethau. Mae arweinwyr a staff yn gweithredu'r ddyletswydd gonestrwydd.
- Mae staff iechyd yn hawdd eu hadnabod. Mae lefelau staffio a chymysgedd sgiliau drwy gydol y cyfnod 24 awr yn diwallu anghenion cleifion.
- Mae staff yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi'n briodol yn unol â safonau proffesiynol; mae hyn yn cynnwys arfer clinigol ac adfyfyriol rheolaidd, goruchwyliaeth gan reolwyr ac arfarnu.
- Mae gan bob claf un cofnod clinigol sy'n bodloni safonau cadw cofnodion cyfoes, a reolir yn unol â llywodraethu gwybodaeth diogel.
- Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu o fewn ffiniau cyfrinachedd meddygol i hyrwyddo parhad gofal a chynnal diogelwch cleifion.
- Mae gan ddalfa mwy diogel, gofal iechyd a'r darparwr cymorth i deuluoedd drefniadau gwaith amlasiantaethol effeithiol i ymgysylltu â theuluoedd ac eraill arwyddocaol i gefnogi iechyd a lles carcharorion.

49. Mae cleifion yn cael triniaeth sy'n sensitif i'w hanghenion, gan staff cymwys mewn amgylchedd sy'n hybu urddas ac yn cynnal preifatrwydd.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae pob carcharor yn cael mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd, lles a gofal cymdeithasol waeth beth fo'u lleoliad, trefn, anabledd neu rwystrau iaith.
- Mae cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi.
- Mae digon o ystafelloedd cyfrinachol a diogel i ddarparu ystod lawn o wasanaethau iechyd sy'n cydymffurfio â mesurau atal a rheoli heintiau.
- Mae'r holl offer clinigol yn hygyrch, yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gwasanaethu'n briodol.
- Mae trefniadau i gael ac adolygu caniatâd cleifion yn briodol. Pan nad oes gan gleifion alluedd meddyliol i wneud penderfyniad, mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn gwneud penderfyniadau 'budd pennaf' yn unol â deddfwriaeth.
- Mae cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael mynediad at eiriolaeth annibynnol os oes angen. Mae trefniadau diogelu yn gadarn.
- Mae cleifion yn gwybod sut i gwyno am eu triniaeth yn gyfrinachol trwy system gwyno effeithiol.

Hybu iechyd a lles

50. Mae carcharorion yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud y gorau o'u hiechyd a'u lles.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae darparwyr iechyd yn cyfrannu at ddull sy'n cael ei arwain gan y carchar i wneud y gorau o iechyd a lles.
- Mae gwybodaeth am y gwasanaethau iechyd sydd ar gael ac ymgyrchoedd iechyd cenedlaethol cyfredol ar gael yn hawdd ym mhob fformat ac iaith ofynnol.
- Mae gweithwyr cymheiriaid a hyfforddwyr iechyd sydd wedi'u hyfforddi a'u goruchwyllo'n dda yn cynnig gwybodaeth a chymorth iechyd i garcharorion.
- Gall carcharorion gael mynediad hawdd at wiriadau iechyd, atal clefydau, rhaglenni sgrinio a thriniaethau'r GIG sy'n cyd-fynd â gwasanaethau cymunedol.
- Gall carcharorion gael mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol cyfrinachol.
- Mae cyngor ac arweiniad gwella iechyd yn benodol i anghenion unigol ac amrywiol ac yn cael eu darparu gan staff cymwys.
- Mae systemau cadarn i atal, nodi a rheoli clefydau trosglwyddadwy.
- Mae carcharorion yn cael cyngor iechyd a lles unigol pan gânt eu rhyddhau.

Gofal sylfaenol a gwasanaethau cleifion mewnol

51. Mae anghenion iechyd, defnydd sylweddau a gofal cymdeithasol uniongyrchol carcharorion yn cael eu cydnabod wrth eu derbyn ac ymatebir iddynt yn brydlon ac effeithiol.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae gweithiwr iechyd proffesiynol cymwys yn sgrinio pob carcharor newydd ar y diwrnod cyrraedd, ac mae carcharorion yn cael asesiad iechyd eilaidd o fewn saith diwrnod i nodi eu hanghenion uniongyrchol a gwneud atgyfeiriadau priodol ymlaen, gan gynnwys gwybodaeth risg.
- Gyda chaniatâd, mae cofnodion clinigol cymunedol y claf yn cael eu casglu'n brydlon.
- Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i roi caniatâd gwybodus i gysylltu â theulu a enwir ac eraill arwyddocaol os bydd analluogrwydd neu argyfwng meddygol.

52. Eir i'r afael ag anghenion gofal iechyd parhaus unigol cleifion trwy ystod briodol o wasanaethau gofal. Mae parhad gofal yn cael ei gynnal wrth drosglwyddo neu ryddhau.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Gall carcharorion gael mynediad at yr holl wasanaethau gofal sylfaenol angenrheidiol o fewn amseroedd aros cyfatebol i'r gymuned, gan gynnwys mynediad at ofal y tu allan i oriau.
- Mae system apwyntiadau effeithiol.
- Mae cleifion â chyflyrau hirdymor ac anghenion iechyd cymhleth yn cael gofal cydgysylltiedig priodol gan staff medrus. Mae cynlluniau gofal a gofnodwyd yn dangos cyfranogiad cleifion ac yn cefnogi parhad gofal.
- Mae cleifion ag anghenion lliniarol a diwedd oes yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddarperir ar y cyd gan y gwasanaethau carchardai a chymunedol, i safonau cenedlaethol, mewn amgylchedd diogel a gweddus.
- Mae cleifion yn derbyn gwasanaethau gofal eilaidd o fewn amseroedd aros sy'n cyfateb i'r gymuned ac nid yw gofal yn cael ei ohirio oherwydd trosglwyddiadau carchar neu ddiffyg swyddogion hebrwng.
- Mae mesurau diogelwch ar gyfer hebryngwyr ysbyty yn gymesur ac yn seiliedig ar asesiad risg unigol sy'n cynnwys cyfraniad iechyd manwl.
- Mae carcharorion yn derbyn asesiadau cyn rhyddhau ac ymyriadau sy'n cynnwys yr holl bartneriaid perthnasol ac yn sicrhau parhad gofal, gan gynnwys cofrestru gyda gwasanaethau iechyd.

53. Mae cleifion sydd angen gofal nyrsio 24 awr yn cael eu cefnogi gan gyfundrefn, cyfleusterau a staff iechyd i ddiwallu eu hanghenion unigol.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae derbyn a rhyddhau yn seiliedig ar feini prawf clinigol y cytunwyd arnynt. Mae niferoedd staffio a chymysgedd sgiliau yn diwallu anghenion cleifion.

- Mae cleifion yn cael asesiad cynhwysfawr o'u hanghenion gofal, adolygiadau rheolaidd a, lle bynnag y bo modd, yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu eu cynlluniau gofal eu hunain.
- Mae gan gleifion amodau byw boddhaol a mynediad at drefn arferol o garchar, ochr yn ochr â gweithgareddau therapiwtig ac adeiladol i gynnal llesiant ac annog adferiad.
- Mae anghenion gofal parhaus cleifion yn cael eu diwallu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r uned cleifion mewnol.

Gofal cymdeithasol

54. Mae carcharorion ag anghenion gofal cymdeithasol (Deddf Gofal 2014; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) ac anghenion cymorth yn cael eu nodi ac yn cael asesiad, pecynnau gofal, addasiadau a gwasanaethau eiriolaeth sy'n parhau ar ôl eu rhyddhau neu eu trosglwyddo.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae llwybr a strwythurau llywodraethu cynhwysfawr ar gyfer darparu gofal cymdeithasol rhwng yr awdurdod lleol, y darparwr gofal cartref a'r carchar.
- Mae carcharorion ag anghenion gofal cymdeithasol yn cael eu hasesu'n brydlon a chynlluniau gofal yn cael eu rhoi ar waith yn ddi-oed i sicrhau bod anghenion gofal cymdeithasol carcharorion yn cael eu diwallu'n gyson.
- Mae digon o staff gofal cymdeithasol wedi'u hyfforddi, eu goruchwyllo a'u sgrinio yn gweithredu cynlluniau gofal wedi'i cytuno arnynt sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Darperir offer, peirianwaith cymorth galwadau ac addasiadau angenrheidiol yn brydlon ac fe gânt eu cynnal yn gywir.
- Nid yw cefnogwyr carcharorion sy'n gymheiriaid yn darparu gofal personol ac maent yn cael eu dewis yn briodol, eu hasesu o ran risg, eu hyfforddi, eu cefnogi a'u goruchwyllo.
- Mae cynllunio cydgysylltiedig effeithiol yn sicrhau bod pecynnau gofal y cytunwyd arnynt yn parhau wrth drosglwyddo o fewn yr ystâd carchardai ac ar ôl rhyddhau.

Iechyd meddwl

55. Mae carcharorion â chyflyrau iechyd meddwl yn cael eu nodi'n brydlon a'u cefnogi gan wasanaethau sy'n cyfateb i'r gymuned i wneud y gorau o'u llesiant meddwl yn ystod eu harhosiad ac wrth drosglwyddo neu ryddhau.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu llywodraethu'n dda ac mae ganddynt drefniadau arweinyddiaeth clir.
- Mae anghenion iechyd meddwl uniongyrchol carcharorion yn cael eu nodi'n gywir wrth gyrraedd a'u hatgyfeirio'n effeithiol.
- Mae swyddogion carchar yn cael hyfforddiant i'w galluogi i adnabod pan fydd carcharor angen ei atgyfeirio ar gyfer asesiad iechyd meddwl a defnyddio llwybr atgyfeirio clir.

- Adolygir atgyfeiriadau yn ddi-oed, a darperir gofal a chymorth, yn seiliedig ar angen/risg clinigol, gan gynnwys ymyrraeth mewn argyfwng.
- Mae digon o staff cymwys yn darparu ystod effeithiol o ymyriadau a chymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae adolygiadau rhagnodi a gwiriadau iechyd corfforol cysylltiedig yn digwydd yn rheolaidd.
- Caiff cleifion eu hasesu gan ddefnyddio fformat safonol a cheir gwybodaeth ychwanegol o ffynonellau eraill yn ôl yr angen.
- Mae gan gleifion gynlluniau gofal ac asesiadau risg sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda'u hymarferwyr iechyd meddwl.
- Mae'r cyswllt a'r cydweithio ag adrannau carchardai a darparwyr iechyd eraill, gan gynnwys gwasanaethau trin defnydd sylweddau, yn effeithiol.
- Mae cleifion â salwch meddwl difrifol a pharhaus yn cael eu cefnogi o fewn y Dull Rhaglen Ofal (Lloegr) neu Fesur Iechyd Meddwl (Cymru).
- Mae cleifion sydd angen asesiad neu driniaeth o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu hasesu a'u trosglwyddo'n ddi-oed.
- Mae cynllunio rhyddhau effeithiol yn golygu bod yna barhad gofal yn dilyn rhyddhau.

Cefnogaeth a thriniaeth i garcharorion sy'n gaeth a'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau

56. Mae dull gweithredu strategol carchar cyfan effeithiol ar gyfer cyffuriau ac alcohol ar waith i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ymyriadau clinigol ac adferiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae gweithio effeithiol ar y cyd rhwng adrannau carchardai, darparwyr triniaeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn darparu dull gweithredu cyffuriau ac alcohol carchar cyfan deinamig wedi'i lywio gan anghenion lleol a pholisi cenedlaethol.
- Mae gweithio mewn partneriaeth rhwng y carchar a darparwyr iechyd wedi'i hen sefydlu, a darperir gofal trwy gymorth arbenigol integredig.
- Mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn cael eu llywodraethu'n dda ac mae ganddynt drefniadau arweinyddiaeth clir.
- Mae digon o staff cymwys yn darparu gwasanaethau seicogymdeithasol a chlinigol effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae carcharorion sy'n ddibynnol ar gyffuriau a/neu alcohol sydd newydd gyrraedd o'r gymuned yn derbyn monitro effeithiol, seiliedig ar dystiolaeth a thriniaeth unigol yn ystod eu dyddiau cynnar yn y carchar.
- Mae pob carcharor sydd newydd gyrraedd yn derbyn gwybodaeth lleihau niwed am ddefnyddio sylweddau anghyfreithlon yn y carchar ac am wasanaethau trin camddefnyddio sylweddau.
- Mae pob carcharor yn cael mynediad prydlon at ystod ddigonol o ymyriadau clinigol, seicogymdeithasol a lleihau niwed drwy gydol eu cyfnod yn y carchar.
- Mae cleifion yn cael rhagnodi hyblyg sy'n adlewyrchu canllawiau clinigol cenedlaethol, yn bodloni eu hanghenion asesedig ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Cwblheir pob archwiliad a gwiriad clinigol cysylltiedig.
- Mae presgripsiynu amlddisgyblaethol ar gael i gleifion sydd ag anghenion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a/neu reoli poen sy'n dod i'r amlwg

neu wedi'u sefydlu, ac fe'i hystyris pan fo cydsynio neu ymgysylltiad yn wael, neu os amheuir bwllo neu orfodaeth.

- Mae swyddogion carchar yn derbyn hyfforddiant sy'n eu galluogi i adnabod pan fydd angen cymorth ar garcharor, ac sy'n sicrhau eu bod yn gwybod sut i atgyfeirio at wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol.
- Mae gan garcharorion fynediad hawdd at wasanaethau cymorth i deuluoedd, hunangymorth a chydgyfath, gan gynnwys cefnogwyr cymheiriaid sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n cael eu goruchwyllo.
- Mae gan esgyll adferiad cyffuriau ethos adferiad, staff cymwys ac ymyriadau therapiwtig ychwanegol.
- Mae cynllunio rhyddhau effeithiol gyda gwasanaethau mewnol a chymunedol perthnasol yn golygu bod yna barhad gofal a chymorth ar ôl rhyddhau, gan gynnwys rhyddhau o'r llys.
- Mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwybodaeth am sut i osgoi gorddos, anafiadau a marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a/neu alcohol ar ôl eu rhyddhau. Mae cymorth unigol ychwanegol ar gael i garcharorion sy'n agored i orddos neu atglafychu ar ôl eu rhyddhau.

Optimeiddio meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol

57. Mae carcharorion yn cael gwasanaethau optimeiddio meddyginiaethau a fferylliaeth sy'n cyfateb yn y gymuned, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Cofnodir hanes meddyginiaeth cleifion, gan gynnwys alergeddau, yn ystod y sgrinio derbyniad cychwynnol a chwblheir cysoniad meddyginiaethau llawn o fewn 72 awr ar ôl cyrraedd.
- Lleiheir unrhyw amhariad ar drefnau rhagnodi a gellir cael mynediad at feddyginiaethau brys/critigol yn ddi-oed.
- Mae cleifion yn cael mynediad uniongyrchol at wasanaethau a chyngor fferylliaeth glinigol.
- Mae'r holl feddyginiaethau'n cael eu trin, eu cludo a'u storio'n gyfreithlon, yn ddiogel ac yn ddiogel gyda rheolaeth a defnydd effeithiol o stoc fferyllol.
- Mae prosesau llywodraethu cadarn ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol, gan gynnwys monitro digwyddiadau meddyginiaeth a thueddiadau rhagnodi.
- Mae meddyginiaethau cleifion yn cael eu rhagnodi, eu hadolygu'n rheolaidd a'u haddasu mewn ymgynghoriad â'r claf, yn ddiogel yn unol ag arferion a llyfr fformiwlâu'r GIG sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Yn amodol ar asesiad risg mewn meddiant a adolygir yn rheolaidd, gall cleifion storio eu meddyginiaethau'n ddiogel a'u cymryd eu hunain.
- Gall carcharorion gael mynediad at feddyginiaethau dros y cownter yn ddiogel ac yn hawdd, gan gynnwys y tu allan i oriau.
- Mae staff carchardai a gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar y feddyginiaeth gywir yn ddiogel ac ar amseroedd a nodir yn glinigol.
- Mae carcharorion yn cael gwybodaeth am eu meddyginiaethau mewn fformat y gallant ei ddeall. Adolygir hyn yn rheolaidd i sicrhau cysondeb ac effeithiolrwydd.

- Mae carcharorion sy'n mynd i'r llys neu'n cael eu rhyddhau/trosglwyddo yn derbyn cyflenwad digonol o feddyginiaeth neu bresgripsiwn cymunedol i ddiwallu eu hanghenion.

Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg

58. Prisoners receive timely, community-equivalent dental services, including oral health promotion.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae gwasanaethau deintyddol yn cael eu llywodraethu'n dda ac mae ganddynt drefniadau arweinyddiaeth clir, gyda digon o staff cymwys i ddarparu triniaeth.
- Mae pob carcharor yn cael mynediad amserol at wasanaethau deintyddol brys yn seiliedig ar angen clinigol, ynghyd â chynlluniau triniaeth Trwy'r Giât.
- Mae cleifion yn cael mynediad amserol at yr ystod lawn o driniaethau sy'n cyfateb i'r GIG.
- Mae carcharorion yn cael ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn hybu iechyd y geg ac atal clefydau.
- Mae cleifion yn cael mynediad prydlon at feddyginiaethau gofynnol i reoli poen yn effeithiol yn dilyn ymyriadau deintyddol.
- Mae deintyddfeydd yn bodloni safonau proffesiynol cyfoes.

Adran 4: Gweithgaredd pwrpasol

Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n debygol o fod o fudd iddynt a disgwylir iddynt wneud hynny.

Cynnwys

- Amser allan o'r gell
- Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith (Ofsted)
 - Ansawdd addysg
 - Ymddygiad ac agweddau
 - Datblygiad personol
 - Arwain a rheoli gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith
- Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith (Estyn)
 - Safonau
 - Lles ac agweddau at ddysgu
 - Profiadau addysgu a dysgu
 - Gofal, cymorth ac arweiniad
 - Arweinyddiaeth a rheolaeth

Amser allan o'r gell

Mae pob carcharor yn cael digon o amser allan o'r gell ac yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasol sy'n cefnogi eu llesiant ac yn hyrwyddo adsefydlu effeithiol.

Disgwyliadau

59. Mae carcharorion yn cael amser rheolaidd a rhagweladwy allan o'r gell sy'n ddigon i hybu adsefydlu a lles.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Caniateir o leiaf 10 awr allan o'u cell bob dydd i garcharorion.
- Rhoddir cyhoeddusrwydd i arferion dyddiol carcharorion, gan gynnwys cymdeithasu ac ymarfer, ym mhob uned breswyl, a chedwir atynt.
- Ble bynnag y maent wedi'u lleoli, nid yw carcharorion byth yn dod o dan drefn sy'n gyfystyr â charchariad unigol (pan fydd carcharorion yn cael eu cyfyngu ar eu pen eu hunain am 22 awr neu fwy y dydd heb gyswllt dynol ystyrlon).
- Mae digon o amser i garcharorion gyflawni tasgau domestig, megis cael cawod, casglu meddyginiaeth, glanhau celloedd a galwadau ffôn, yn ogystal â chyflogaeth ac addysg.
- Mae carcharorion nad ydynt yn gallu mynychu gweithgareddau dysgu neu waith, oherwydd eu bod wedi ymddeol, yn sâl neu'n anabl, yn cael eu datgloi yn ystod y dydd ac yn cael gweithgareddau ystyrlon.
- Mae carcharorion yn cael cyfle i ffonio neu gysylltu drwy alwad fideo, eu plant, eu teuluoedd a phobl arwyddocaol eraill ar adeg sy'n gyfleus iddynt hwy a'u teulu.

60. Disgwylir ac anogir carcharorion i ddefnyddio amser allan o'r gell yn adeiladol, gan gynnwys ar benwythnosau.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae staff a charcharorion yn cael cyfleoedd dyddiol i ryngweithio'n rhagweithiol.
- Mae carcharorion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau trwy gydol y dydd a gallant gael o leiaf un diwrnod gorffwys yr wythnos.
- Anogir carcharorion i gymdeithasu â'i gilydd.
- Mae gan garcharorion fannau â'r offer priodol ar gyfer cymdeithasu.
- Anogir carcharorion i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden cymdeithasol sy'n hybu lles.
- Anogir carcharorion i roi o'u hamser er budd eraill, er enghraifft mewn rolau cymorth cymheiriaid.

61. Gall carcharorion, gan gynnwys cleifion mewnol, y rhai ar gyfundrefn gyfyngedig a'r rhai sydd wedi'u gwahanu, dreulio cymaint o amser â phosibl – a dim llai nag awr – yn yr awyr agored bob dydd.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae'r mannau ymarfer yn lân, yn eang ac yn ddeniadol, ac yn cynnwys digon o seddi ac offer.
- Nid oes rhaid i garcharorion ddewis rhwng mynediad i'r awyr agored a gweithgareddau cyfundrefnol pwysig eraill.
- Mae'r mannau ymarfer yn cynnwys offer ymarfer corff a mannau i garcharorion eistedd.
- Mae staff yn annog carcharorion i dreulio amser yn yr awyr agored er eu lles meddyliol a chorfforol.
- Dim ond mewn tywydd eithafol y caiff ymarfer corff y tu allan ei ganslo ac mae dillad gwrth-ddŵr ar gael.

62. Mae carcharorion yn elwa ar fynediad rheolaidd i lyfrgell addas, deunyddiau llyfrgell ac adnoddau dysgu ychwanegol sy'n bodloni eu hanghenion.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae'r llyfrgell yn hyrwyddo llythrennedd yn effeithiol ac yn annog ymgysylltiad cymdeithasol.
- Mae carcharorion yn cael sesiwn gynefino amserol a chymwynasgar yn y llyfrgell.
- Gall carcharorion ymweld â'r llyfrgell, neu gael mynediad at wasanaethau llyfrgell o leiaf unwaith yr wythnos.
- Mae deunyddiau llyfrgell yn adlewyrchu anghenion amrywiol y carcharorion a gedwir ac maent ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd, gan gynnwys y rheini ar gyfer darllenwyr gwael.
- Mae gwerslyfrau cyfreithiol perthnasol, cynhwysfawr a chyfredol, gan gynnwys deddfwriaeth a pholisïau carchardai, ar gael yn ddi-dâl i garcharorion.
- Mae gan garcharorion ddigon o amser i gael mynediad at ddeunyddiau os na allant fynd â nhw i ffwrdd o'r llyfrgell.
- Mae ystod o adnoddau dysgu ychwanegol ar gael i garcharorion.
- Mae gan garcharorion fynediad at wasanaethau rhyngwyd a TG.
- Mae'r llyfrgell yn hybu byw'n iach, er enghraifft trwy gyflenwi llyfrau a argymhellir gan y tîm iechyd neu staff addysg gorfforol.
- Mae gwasanaethau a ddarperir gan y llyfrgell yn hyrwyddo cyswllt â phlant, teuluoedd a phobl eraill sy'n arwyddocaol i garcharorion.

63. Anogir carcharorion i gymryd rhan mewn addysg gorfforol a darpariaeth ffitrwydd sy'n bodloni eu hanghenion.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae carcharorion yn cael cyflwyniad priodol ac amserol i weithgareddau addysg gorfforol a ffitrwydd sy'n canolbwyntio ar fyw'n iach.

- Mae carcharorion yn cael mynediad digon aml i'r cyfleusterau addysg gorfforol ar gyfer hamdden.
- Gall carcharorion gael cawod yn breifat ar ôl pob sesiwn mewn amwynderau a gynhelir yn dda.
- Mae'r cyfleusterau addysg gorfforol mewn cyflwr da ac yn cael eu goruchwyllo'n dda.
- Mae'r ystod o weithgareddau addysg gorfforol a ffitrwydd a gynigir yn amrywiol, yn darparu ar gyfer pob lefel o allu a ffitrwydd, ac yn diwallu anghenion y boblogaeth.
- Mae cydweithio effeithiol rhwng staff y gampfa a staff iechyd/camddefnyddio sylweddau yn cefnogi defnydd diogel o'r gampfa i bob carcharor.
- Mae carcharorion yn elwa ar raglenni hyfforddi strwythuredig a chyfleoedd i ennill cymwysterau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.
- Mae gan staff addysg gorfforol a ffitrwydd gymwysterau ac arbenigedd priodol.
- Anogir carcharorion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ffitrwydd sy'n cynnwys y gymuned leol.
- Ceisir a gweithredir ar farn carcharorion ar addysg gorfforol.

64. Gall carcharorion gael mynediad i weithgareddau creadigol, adloniadol a chymdeithasol sy'n hybu dysgu, lles ac yn cefnogi adsefydlu.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a all ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei fodloni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael i garcharorion sy'n meithrin perthnasoedd cadarnhaol, hunan-barch, hyder a gwella iechyd a lles.
- Mae carcharorion yn helpu i ddatblygu'r ystod o weithgareddau hamdden a gynigir ac maent, gyda goruchwyliaeth staff, yn ymwneud â darparu ac adolygu gweithgareddau.
- Mae carcharorion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, gan gynnwys darpariaeth yn y celloedd.
- Defnyddir profiadau celfyddydol a diwylliannol i wella amgylchedd y carchar, gan ei wneud yn fwy ffafriol i adsefydlu.
- Mae sefydliadau cymunedol yn cymryd rhan mewn darparu lle bo'n briodol.

Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith (Ofsted)

Yn Lloegr, Ofsted sy'n cynnal y rhan hon o'r arolygiad. Er mwyn sicrhau bod carchardai'n cael eu dal yn atebol i'r un safon perfformiad â cholegau addysg bellach yn y gymuned, rydym wedi dewis mabwysiadu Fframwaith Arolygu Addysg Ofsted yn benodol, sy'n esbonio arddull wahanol yr adran hon o Ddisgwyliadau. Ar gyfer carchardai yng Nghymru, gweler Disgwyliad 65. Ar gyfer carchardai yng Ngogledd Iwerddon, yr ydym yn eu harolygu drwy wahoddiad yn unig, rydym yn defnyddio fframwaith arolygu a hunanwerthuso Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Gogledd Iwerddon, sydd i'w weld yn <https://www.etini.gov.uk/publications/inspection-and-self-evaluation-framework-isef-effective-practice-and-self-evaluation-4>.

Disgwylir a galluogir pob carcharor i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, sgiliau neu waith sy'n hybu datblygiad personol a chyflogadwyedd. Mae addysg, sgiliau a gweithleoedd digonol ac addas i gwrdd ag anghenion y boblogaeth ac mae'r ddarpariaeth o safon dda.

Disgwyliadau

64.1 Mae carcharorion yn elwa ar addysg, medrau a gwaith o ansawdd da.

Mae Fframwaith Addysg Ofsted (EIF) yn nodi'r prif feini prawf ar gyfer barnu ansawdd addysg, sgiliau a gwaith. Wrth wneud y farn hon, bydd arolygwyr yn ystyried y ffactorau canlynol:

- Mae arweinwyr a rheolwyr wedi dewis a datblygu cwricwlwm sy'n datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad (gan gynnwys Saesneg, ac yn arbennig darllen, mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu) sydd eu hangen ar garcharorion i fanteisio ar y cyfleoedd, y cyfrifoldebau a'r profiadau sy'n eu paratoi ar gyfer eu cam nesaf mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth o fewn y sefydliad neu ar ôl eu rhyddhau.
- Mae'n glir beth mae'r cwricwlwm yn paratoi carcharorion ar ei gyfer a beth fydd angen i garcharorion allu ei wybod a'i wneud ar ddiwedd eu rhaglenni dysgu neu hyfforddi.
- Mae arweinwyr, rheolwyr a'r holl staff addysgu wedi cynllunio a threfnu'r cwricwlwm fel bod carcharorion yn gallu adeiladu ar ddysgu blaenorol a datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau newydd sydd eu hangen arnynt.
- Mae'r cwricwlwm yn ystyried anghenion carcharorion ac yn cynnig y wybodaeth a'r sgiliau iddynt sy'n adlewyrchu anghenion y cyd-destun lleol a rhanbarthol lle maent yn debygol o gael eu rhyddhau.
- Mae gan athrawon a hyfforddwyr wybodaeth arbenigol o'r pynciau y maent yn eu haddysgu.
- Mae athrawon yn galluogi carcharorion i ddeall cysyniadau allweddol, gan gyflwyno gwybodaeth yn glir a hyrwyddo trafodaeth.
- Mae athrawon yn gwirio dealltwriaeth carcharorion yn effeithiol, ac yn nodi ac yn cywiro camddealltwriaeth.
- Defnyddir cymheiriaid hyfforddedig fel mentoriaid i weithio'n agos gyda staff i ddarparu arweiniad a chymorth unigol â ffocws.
- Mae carcharorion yn gallu cael mynediad at dechnoleg ddigidol a chynnwys digidol priodol i gefnogi eu dysgu.

- Trefnir y cwricwlwm fel bod gwybodaeth a sgiliau newydd yn adeiladu ar yr hyn y mae carcharorion yn ei wybod ac yn gallu ei wneud a bod carcharorion yn gallu gweithio tuag at bwyntiau terfynol diffiniedig.
- Mae athrawon yn defnyddio asesu i ddatblygu dealltwriaeth carcharorion i ymestyn a gwella eu sgiliau y tu hwnt i ddim ond cofio ffeithiau datgysylltiedig. Mae asesu hefyd yn gwirio dealltwriaeth carcharorion i lywio addysgu, hyfforddiant a chyfarwyddyd pellach.
- Mae cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm ac addysgu, gan gynnwys y defnydd o asesu, yn sicrhau bod carcharorion yn ymgorffori cysyniadau a gwybodaeth allweddol yn y cof hirdymor a'u bod yn gallu cymhwyso cysyniadau a gwybodaeth yn gyson ac yn hawdd.
- Mae sgiliau carcharorion sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn cael eu cydnabod a'u cofnodi.
- Defnyddir rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL) i wella sgiliau cyflogaeth neu hyfforddiant carcharorion a'u paratoi ar gyfer eu rhyddhau.
- Mae carcharorion yn gwneud cynnydd o'u mannau cychwyn, gan ennill sgiliau, ymddygiad a, lle bo'n briodol, cymwysterau.
- Mae staff yn ymwybodol o anghenion amrywiol carcharorion unigol mewn sesiynau addysgu, hyfforddi a gwaith ac yn cynllunio ar eu cyfer ac yn darparu cymorth effeithiol, gan gynnwys ar gyfer carcharorion â Saesneg fel ail iaith. Mae staff yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer carcharorion ag anableddau neu ag anghenion addysgol ychwanegol.
- Mae'r cwricwlwm yn uchelgeisiol ar gyfer pob carcharor, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SEND) neu anawsterau dysgu, ac mae'n diwallu eu hanghenion.
- Mae carcharorion ag anawsterau dysgu a/neu anableddau a'r rhai gyda SEND yn ennill gwybodaeth a sgiliau ac yn symud ymlaen tuag at adsefydlu ac i ddod yn fwy annibynnol yn eu bywyd bob dydd, a/neu symud ymlaen i gyflogaeth.
- Defnyddir arholiadau fel dangosyddion defnyddiol o ganlyniadau carcharorion, ond cydnabyddir eu bod yn cynrychioli sampl yn unig o'r hyn y mae carcharorion yn ei ddysgu.
- Mae dysgu yn ystyried cynlluniau dedfryd carcharorion.
- Mae'r holl ddysgu yn adeiladu tuag at ddiweddbwynt. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ac yn barod ar gyfer cam nesaf eu haddysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, yn y carchar neu ar ôl eu rhyddhau, ar bob cam o'u dysgu.
- Mae'r ddarpariaeth yn lleihau aildroseddu ac yn hybu sgiliau cyflogadwyedd fel bod carcharorion wedi'u paratoi'n dda ar gyfer cam nesaf eu haddysg, cyflogaeth, hunangyflogaeth neu hyfforddiant yn y carchar neu ar ôl eu rhyddhau.

64.2 Mae'r ddarpariaeth yn hyrwyddo ymddygiad ac agweddau cadarnhaol yn llwyddiannus.

Mae EIF Ofsted yn nodi'r prif feini prawf ar gyfer barnu ymddygiad ac agweddau. Wrth wneud y farn hon, bydd arolygwyr yn ystyried y ffactorau canlynol:

